

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

113/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

07/12/2023

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Theori Newid

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-965-5

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus
(Cymru): Theori Newid

Awdur: Rhaglen Ymchwil Fewnol, Gwasanaethau Gwybodaeth
a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Rhaglen Ymchwil Fewnol (2023). *Deddf Partneriaeth
Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Theori Newid*. Caerdydd:
Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 113/2023
Ar gael: [https://www.llyw.cymru/deddf-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-
cyhoeddus-cymru-theori-newid](https://www.llyw.cymru/deddf-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru-theori-newid)

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Rhaglen Ymchwil Fewnol

Cyfadrn: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: RhYF.IRP@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	3
Geirfa 4	
1. Cyflwyniad.....	5
2. Methodoleg	19
3. Canfyddiadau'r Gweithdy: Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol	27
4. Canfyddiadau'r Gweithdy: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol	34
5. Canfyddiadau'r Gweithdy: Gwaith Teg	41
6. Canfyddiadau'r Gweithdy: Monitro Data	47
7. Model Rhesymeg Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol	49
8. Monitro a Gwerthuso'r Ddeddf yn y Dyfodol	51
9. Casgliadau ac Argymhellion.....	61
Llyfryddiaeth.....	65
Atodiad A: Canllaw Pwnc ar gyfer y Gweithdy i Randdeiliaid.....	66
Atodiad B	69

Rhestr o dablau

Tabl 1: Egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol	9
Tabl 2: Mynychwyr Gweithdy theori newid	24
Tabl B.1: Monitro Data Gwaith Teg.....	69
Tabl B.2: Monitro Data Partneriaeth Gymdeithasol.....	76
Tabl B.3: Monitro Data Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol.....	78

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Camau allweddol model rhesymeg	20
Ffigur 2: Model Rhesymeg y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.....	33
Ffigur 3: Model Rhesymeg y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol	40
Ffigur 4: Model Rhesymeg Gwaith Teg.....	46
Ffigur 5: Model Rhesymeg Caffael.....	50

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Y Ddeddf	Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)
ABB	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
ABOE	Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion
AG	Aseiad Gwerthuso
RhYF	Rhaglen Ymchwil Fewnol
GGD	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
LFS	Arolwg y Llafurlu
CPG	Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol
DPG	Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol
CPGCGT	Cyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg
ThN	Theori Newid
ULI	Undeb Llafur
Y Ddeddf Llesiant	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,
LIC	Llywodraeth Cymru

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Tachwedd 2022, comisiynodd y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg (CPGCGT) (Swyddfa'r Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru (LIC)) y Rhaglen Ymchwil Fewnol (RhYF, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (GGD), Llywodraeth Cymru) i ddatblygu Theori Newid ar gyfer yr hyn a oedd bryd hynny yn Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2023, gan ddod y Ddeddf Gymreig gyntaf a basiwyd gan Charles III.¹
- 1.2 Mae'r [Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\)](#) (y Ddeddf) newydd yn cael ei disgrifio fel "ffordd unigryw Gymreig o weithio" gan y Llywodraeth. Mae'r Ddeddf yn cyflawni ymrwymiad [Rhaglen Lywodraethu](#) i roi sail statudol o bartneriaethau cymdeithasol yng Nghymru (LIC, 2021). Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer gwella llesiant yng Nghymru drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg, a newidiadau i'r ffordd y caiff gwariant cyhoeddus yng Nghymru ei ddyrannu a'r ffordd y caiff nwyddau a gwasanaethau eu caffael trwy gaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.
- 1.3 Mae darn cyntaf Cymru o ddeddfwriaeth sylfaenol ar gaffael wedi'i gynnwys yn y Ddeddf, gan gydnabod gallu caffael fel sbardun sylweddol ar gyfer gwella canlyniadau llesiant.² Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol i sicrhau caffael cymdeithasol gyfrifol.³ Mae hyn yn golygu yn ymarferol bod yn rhaid i lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol fod yn greiddiol i benderfyniadau cyrff cyhoeddus wrth ddyrannu eu gwariant caffael blynyddol o £7 biliwn (LIC, 2023a, tud. 25).
- 1.4 Mae'r Ddeddf hefyd yn diwygio geiriad [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol), gan ddisodli "gwaith addas" gyda "gwaith teg" o

¹ Mae'r cofnod o basio'r Ddeddf drwy Senedd Cymru ar dudalennau gwe [Busnes y Senedd](#) [Cyrchwyd 8 Mehefin 2023].

² Fodd bynnag, mae [Memorandwm Esboniadol](#) y Ddeddf yn nodi ei bod yn bwysig peidio â gorbwysleisio hyn. Mewn rhai sectorau, fel bwyd, mae'r sector caffael cyhoeddus yn cynrychioli cyfran fechan o'r farchnad gyffredinol yng Nghymru (tud. 15).

³ Am restr o gyrff cyhoeddus a gwmpesir, gweler tud. 148 o [Femorandwm Esboniadol y Ddeddf](#). [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].

fewn y nod "Cymru Lewyrchus" presennol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus penodedig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ystyried y nod llesiant diwygiedig wrth bennu eu hamcanion llesiant.

- 1.5 Bwriad y Ddeddf yw ategu deddfwriaeth arall, gan gynnwys y Ddeddf Llesiant a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r deddfwriaeth newydd yn rhyngweithio'n benodol â'r Ddeddf Llesiant gyda'r uchelgais a ddatgenir o wella datblygiadau cynaliadwy drwy nodau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol tebyg. Mae egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf Llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai a restrir sy'n ddarostyngedig i'w darpariaethau weithredu mewn ffordd sy'n anelu at sicrhau bod anghenion cyfredol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar genedlaethau'r dyfodol.
- 1.6 Mae sawl maes hefyd lle mae'r Ddeddf yn rhyngweithio â [Bil Caffael Llywodraeth y DU](#); er enghraifft, o ran terminoleg a diffiniadau, y cyrff a gwmpesir o dan gylch gwaith y cyfryw ddarpariaethau a darpariaethau drafft, ac wrth sefydlu prosesau ar gyfer goruchwyllo ac atebolrwydd.
- 1.7 Nod y Ddeddf yw gwella llesiant a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n seiliedig ar bedair egwyddor allweddol partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg, caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol a datblygu cynaliadwy. Mae partneriaeth gymdeithasol yn ffordd sefydledig o weithio, gydag enghreifftiau o arferion partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.⁴
- 1.8 Mae'r Ddeddf hefyd yn creu fframwaith statudol sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r dull partneriaeth gymdeithasol, drwy gyflwyno Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG) parhaol i Gymru.⁵

Y Ddeddf

- 1.9 Mae nodau trosfwaol y Ddeddf wedi'u hamlinellu yn y paragraffau canlynol o dan ddarpariaethau allweddol y deddfwriaeth.

⁴ Gweler [Beyond Social Partnership? Devolved Levers to Support Trade Unions in Wales](#) (Sefydliad Materion Cymreig, 2023) am ragor o wybodaeth gefndirol [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].

⁵ Fel y nodwyd ym Memorandwm Esboniadol y Ddeddf, mae llawer o drefniadau partneriaeth gymdeithasol cyfredol yng Nghymru wedi datblygu'n wirfoddol ac yn organig. Fodd bynnag, nid oeddent wedi'u seilio ar fframwaith cyffredin na'u cydlynu i sicrhau'r effaith fwyaf posibl (t.17-16).

Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

- 1.10 Diffinnir partneriaethau cymdeithasol fel "ffordd o weithio sy'n anelu at gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt ar y cyd, er budd pawb sy'n gysylltiedig" (LIC, 2023a, tud. 9).
- 1.11 Mae yna lawer o drefniadau partneriaeth gymdeithasol rhwng sefydliadau unigol, grwpiau cynrychioliadol ar draws y sector ac undebau llafur cydnabyddedig yng Nghymru, rhai â hanes hir. Nid yw'r Ddeddf yn disodli'r trefniadau presennol hyn, ond yn hytrach mae'n eu cryfhau a'u ffurfioli i helpu i ddatrys heriau economaidd a chymdeithasol Cymru.
- 1.12 Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus ac undebau llafur (neu gynrychiolwyr gweithwyr) gydweithio mewn meysydd sydd o ddiddordeb cyffredin, a gyda'i gilydd drwy gynllunio ar y cyd a gwneud penderfyniadau, cryfhau gwaith llunio polisiau a chyfrannu at atebion arloesol. Fel y disgrifir ym [Memorandwm Esboniadol](#) y Ddeddf, mae partneriaeth gymdeithasol yn broses ac yn ffordd o weithio yn bennaf sy'n ceisio sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt ar y cyd er budd yr holl grwpiau sy'n gysylltiedig.
- 1.13 Felly, nod prosesau partneriaeth gymdeithasol yw cefnogi newid ymddygiadol a diwylliannol sefydliadol. Lluniwyd y Ddeddf gyda'r bwriad o annog y rhai sy'n ymwneud â'r partneriaethau hyn i fabwysiadu ystod o werthoedd ac ymddygiadau, neu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, yn eu trafodaethau. Mae'r egwyddorion partneriaeth gymdeithasol hyn yn cael eu disgrifio fel Cydweithredu, Parch, Ymddiriedolaeth, Llais a Chyfranogiad, a Buddion Cyffredin (LIC, 2023a, t. 21), fel y'i crynhoir yn Nhabl 1.
- 1.14 Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol (DPG) yn y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig (neu gynrychiolwyr gweithwyr eraill os nad oes undeb llafur cydnabyddedig) wrth bennu a chymryd camau rhesymol i gyflawni eu hamcanion llesiant.⁶ Mae'r DPG yn berthnasol pan fydd cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ynghylch materion strategol, ac wrth gyflawni'r ddyletswydd, rhaid i

⁶ Fel y nodir o dan adran 3(2) o'r Ddeddf Llesiant.

gyrff cyhoeddus ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan
Weinidogion Cymru.

Tabl 1: Egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol

Egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol	Ymrwymiad a rennir
Cydweithredu	Llwyddiant drwy ddatrys problemau ar y cyd, cyfaddawdu a dod i gonsensws.
Parch	Cydnabod buddiannau cyfreithlon a buddiannau a allai wrthdaro.
Ymddiriedaeth	Perthnasoedd yn seiliedig ar onestrwydd, diffuantrwydd, tryloywder, bod yn agored ac ystyried pobl eraill.
Llais a Chyfranogiad	Gwybodaeth, ymgynghori a chyfranogi rhagweithiol ac amserol.
Buddion Cyffredin	Sicrhau gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus ac i ganlyniadau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a gwaith teg.

Ffynhonnell: Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru (Chwefror 2023), Memorandwm Esboniadol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), t 21.

- 1.15 Ar gyfer Gweinidogion Cymru, mae'r DPG hefyd yn berthnasol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau o natur strategol. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd yn fwy cyfyng nag ar gyfer cyrff cyhoeddus⁷ i gydnabod y ffaith bod Gweinidogion Cymru yn gosod amcanion llesiant yn syth ar ôl pob etholiad i'r Senedd.
- 1.16 Mewn cytundeb ag undebau llafur (neu gynrychiolwyr gweithwyr eraill), bydd cyrff cyhoeddus a bennir yn y Ddeddf yn adrodd yn flynyddol gan fanylu ar sut y maent wedi cydymffurfio â'r DPG. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad a'i gyflwyno i'r CPG. Mae hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad blynyddol yn manylu ar

⁷ Yn ôl y [Memorandwm Esboniadol](#): "Mae'r defnydd mwy cyfyng hwn o'r ddyletswydd i Ddeddf Llesiant 2015 (adran 3(2)(b)) ond yn cydnabod y ffaith bod gosod amcanion llesiant gan Weinidogion Cymru yn digwydd yn syth ar ôl pob etholiad yn y Senedd. Ni fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru sy'n dod i mewn gyda mandad polisi clir gan bobl Cymru wedyn ofyn am gyfaddawd neu gonsensws ar yr un materion hynny naill ai fel cyflogwr gyda'i undebau llafur cydnabyddedig ei hun neu gyda'r partneriaid cymdeithasol a gynrychiolir ar yr CPG" (LIC 2023, tud.9). [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].

gydymffurfiaeth y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r CPG a'i osod gerbron y Senedd ar gyfer craffu.

Y Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol

- 1.17 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer corff cynghori statudol teirochrog, yr CPG, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog.⁸ Mae'r strwythur teirochrog yn cyfeirio at ddealltwriaeth o bartneriaethau cymdeithasol a gymhwysir ar lefel llywodraeth genedlaethol. Mae hyn yn darparu ar gyfer cyfranogiad cyflogwyr, gweithwyr trwy eu cynrychiolwyr (e.e. aelodau undebau llafur) a Llywodraeth Cymru i weithio'n gydweithredol ar faterion strategol sydd o fudd cyffredin. Mae'n canolbwyntio ar wahodd safbwyntiau gan gyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr,⁹ o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, sy'n gwahaniaethu'r CPG oddi wrth bartneriaethau traws-sector sy'n bodoli eisoes, sy'n fwy cyfyng eu natur.
- 1.18 Swyddogaeth yr CPG yw darparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol, mynd ar drywydd nod llesiant 'Cymru Lewyrchus' gan gyrrff cyhoeddus wrth gyflawni datblygiad cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant 2015, a'r swyddogaethau a roddwyd ar awdurdodau contractio a Gweinidogion Cymru o dan Ran 3 o'r Ddeddf (caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol).
- 1.19 Bydd yr CPG yn gallu darparu rôl arweiniol ar faterion sy'n ymwneud â phartneriaethau cymdeithasol, gan geisio annog arferion da, a chefnogi mwy o gyfranogiad ymhlith gweithwyr a chyflogwyr mewn dulliau llunio polisi, i feithrin agenda fwy uchelgeisiol tuag at gyflawni canlyniadau gwell i boblogaeth Cymru.
- 1.20 Mae gan yr CPG rôl hefyd wrth sicrhau cyfranogiad aelodau o ran y prosesau a'r rôl gynghori ar fonitro diffyg cydymffurfiaeth sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus; a gwneir hyn drwy greu is-grŵp caffael o'r CPG a fydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar gymhwyso'r dyletswyddau caffael.

Gwaith Teg

⁸ Bydd yr CPG yn disodli'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ac yn adeiladu ar arferion strwythurau cyfredol megis Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a'r Cyngor Datblygu Economaidd.

⁹ Yn hytrach na dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau.

- 1.21 Gwaith teg yn ôl y Ddeddf yw ystod o weithgareddau a wneir gan gyflogwyr mewn cytundeb â'r gweithlu, sy'n cyfrannu at lesiant ac sy'n gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.
- 1.22 Mae'r Ddeddf yn cyfrannu at ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu i "adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg" (LIC, 2021). Mae'r Ddeddf yn diwygio adran 4 o'r Ddeddf Llesiant, gan ddisodli 'gwaith addas' gyda 'gwaith teg o fewn nod llesiant 'Cymru lewyrchus'. Bydd angen i gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru ystyried y newid i'r nod llesiant wrth bennu unrhyw amcanion llesiant newydd.
- 1.23 Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwaith teg yn cael ei lywio gan waith adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg,¹⁰ [Gwaith Teg Cymru](#) (2019). Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Canllaw i Waith Teg](#), sy'n amlinellu canllawiau a gwybodaeth am yr hyn yw gwaith teg, manteision hyrwyddo gwaith teg a sut y gall sefydliadau ddatblygu eu taith tuag at waith teg (LIC, 2022).
- 1.24 Mae'r sector cyhoeddus datganoledig yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru. Un o amcanion y Ddeddf yw cefnogi gallu gyrff cyhoeddus datganoledig i gyfrannu at waith teg fel rhan o bennu eu hamcanion llesiant a'u gwireddu.

Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol

- 1.25 Mae caffael cyhoeddus yn ysgogiad allweddol i weithredu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg. Fodd bynnag, mae'r broses o wneud hynny'n gymhleth ac yn fanwl oherwydd, er enghraifft, gall contractau gael eu darparu gan gyflenwyr ar draws sawl haen, yn amrywio o ran maint a gwerth, a gall contractwyr fod wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.
- 1.26 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cymdeithasol gyfrifol wrth ymgymryd â chaffael; pennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant; ac i gyhoeddi strategaeth gaffael. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau bod cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol yn

¹⁰ Corff gweinidogol a sefydlwyd gan y Prif Weinidog yn 2018 oedd y Comisiwn Gwaith Teg i wneud argymhellion ar sail tystiolaeth ar hyrwyddo gwaith teg yng Nghymru. Casglodd y Comisiwn dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid ar arferion gwaith, gwobrwyo a chynrychiolaeth i gyflwyno darlun o waith teg yng Nghymru. Roedd yn ystyried ac yn cynnig argymhellion ar sut y gallai Llywodraeth Cymru hyrwyddo arferion cyflogaeth gwaith teg ledled Cymru.

cael eu cyflwyno a'u bod yn cael eu monitro drwy'r cadwyni cyflenwi ar gyfer prosiectau adeiladu mawr ac nid gan gyflenwyr a chontractwyr haen gyntaf yn unig. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys gofyniad i'r cyrff hynny roi sylw i osod gwasanaethau cyhoeddus ar gontract allanol a chod y gweithlu wrth gontractio gwasanaethau allanol. Bydd hyn yn disodli'r Cod Ymarfer presennol ar Faterion y Gweithlu (a elwir gan rai fel y Cod Gweithlu Dwy Haen) a bydd yn cael ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru.

- 1.27 Mae cyfraith yr UE wedi gosod y fframwaith deddfwriaethol eang sy'n sail i reoliadau caffael, sy'n cael ei ddiwygio ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU yn ei Bil Diwygio Caffael. Mae cytundeb ar waith lle bydd Llywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru yn ei Bil. Yn fras, mae Bil Llywodraeth y DU yn cwmpasu'r prosesau sy'n sail i gaffael tra bod y Ddeddf yn canolbwyntio ar flaenoriaethau a chanlyniadau polisi.
- 1.28 Mae nifer o fecanweithiau deddfwriaeth a pholisi eisoes yn bodoli yng Nghymru sy'n ceisio sicrhau'r canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gorau posibl drwy gaffael:
- Mae'r Ddeddf Llesiant a'r [Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer caffael yng Nghymru ar gyfer cyrff cyhoeddus, gyda'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi'i chynllunio i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn sgil anfantais economaidd-gymdeithasol.
 - Mae'r [dull Buddion Cymunedol](#) yn ceisio ymgorffori gwerth cymdeithasol a gofynion buddion cymunedol wrth dendro contractau.
 - Mae [Nodiadau Polisi Caffael](#) yn blaenoriaethu gwaith teg, gan nodi sut y dylid defnyddio ysgogiadau caffael a rheoli contractau i atal arferion anghyfreithlon ac annheg.
 - Datblygwyd [Cod Ymarfer gwirfoddol ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi](#) mewn partneriaeth gymdeithasol y disgwylir i sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus ei lofnodi, er bod y nifer y llofnodwyr wedi bod yn isel.

- Mae ymrwymiad trawslywodraethol i gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi Cymru drwy ddulliau caffael i gryfhau'r [Economi Sylfaenol](#) yng Nghymru.
- Mae llawer o sefydliadau'n defnyddio offeryn [Asesu Risg Cynaliadwyedd](#) i gefnogi amcanion amgylcheddol (e.e. gwytnwch hinsawdd, datgarboneiddio) yn ystod prosesau caffael.
- Mae'r Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu (sef y [Cod Gweithlu dwy haen](#)) yn rhan allweddol o ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwaith teg, gan ddarparu diogelwch i weithwyr pan fydd gwasanaethau'n cael eu contractio'n allanol i drydydd parti a diogelu'r telerau cyflogaeth ar gyfer y rhai newydd sy'n ymuno â gwasanaeth sydd wedi'i contractio'n allanol. Wrth fabwysiadu'r cod, mae awdurdodau contractio yn ymrwymo i ddilyn egwyddorion [Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau \(Diogelu Cyflogaeth\) 2006](#) hyd yn oed pan nad ydynt yn gyfangwbl berthnasol, oni bai bod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny.

1.29 Gan adeiladu ar y mecanweithiau polisi a chaffael presennol, nod dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol y Ddeddf yw egluro agenda caffael Llywodraeth Cymru a'r disgwyliadau. Mae caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn golygu prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau contractio ddangos eu hymrwymiad i sicrhau bod canlyniadau caffael cymdeithasol gyfrifol yn gysylltiedig â nodau llesiant.

1.30 Mae'r Ddeddf yn pennu dwy ddyletswydd rheoli contract penodol. O fewn contractau penodol, mae'r dyletswyddau hyn yn codi ynghylch y canlynol:

- ystyried a chynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol ar gyfer contractio gwasanaethau'n allanol, gan gynnwys dyletswyddau sy'n cynrychioli cryfhau'r Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu (sef y Cod Gweithlu dwy haen);¹¹ a

¹¹ Mae cryfhau'r Cod Gweithlu dwy haen yn nodi: i). dylid cynnal prosesau contractio ac aildendro sy'n cynnwys staff sy'n trosglwyddo o gyrff cyhoeddus i sicrhau bod telerau ac amodau yn cael eu diogelu, a phensiynau'n parhau i fod yn gymharol gyfartal; a ii). mae hefyd yn sicrhau bod gweithlu newydd sydd wedi'u trosglwyddo allan yn cael eu cyflogi ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol (LIC 2023, tud. 30).

- cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol ar gyfer prosiectau adeiladu dros £2 filiwn a fydd yn helpu i sicrhau mwy o ddiwydrwydd dyladwy wrth gymhwyso telerau contract cymdeithasol gyfrifol drwy'r cadwyni cyflenwi. Mae'r ffocws cychwynnol ar y diwydiant adeiladu, sy'n tueddu i fod â chadwyni cyflenwi hir a chymhleth lle gall fod yn anodd mynd i'r afael ag arferion cyflogaeth annheg ac anghyfreithlon, er y gall Gweinidogion Cymru ymestyn y ddyletswydd hon i sectorau eraill yn y dyfodol (gweler y Memorandwm Esboniadol (LIC 2023a, tt. 31-33), am ragor o wybodaeth).

- 1.31 Nod y dyletswyddau rheoli contractau hefyd yw gwella tryloywder awdurdodau contractio drwy gryfhau gofynion adrodd a phrosesau rheoli contractau, gyda chysylltiadau gwell rhwng prosesau caffael a chanlyniadau llesiant. Rhaid i awdurdodau contractio, fel y'u diffinnir gan y Ddeddf, bennu a chyhoeddi amcanion sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r nodau caffael cymdeithasol gyfrifol; ac yn achos yr Awdurdodau hynny sy'n caffael contractau sy'n uwch na throthwy Cytundeb Caffael Llywodraeth Sefydliad Masnach y Byd (yn unol â throthwy presennol yr OJEU ar hyn o bryd), rhaid cadw gwybodaeth wedi'i diweddarau am gontractau, a gyhoeddir drwy gofrestr contractau; ac amlinellu gwybodaeth mewn adroddiadau blynyddol presennol am y camau a gymerwyd er mwyn cyflawni'r amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol.
- 1.32 Ar gyfer y cymalau gwaith cyhoeddus a gweithlu cymdeithasol, mae'r Ddeddf hefyd yn pennu telerau ar gyfer adrodd ar eithriadau. Mae hyn yn cyfeirio at achosion lle na all awdurdodau contractio, mewn amgylchiadau a adolygir gan Lywodraeth Cymru, gynnwys telerau contractau enghreifftiol mewn contractau adeiladu mawr, na chymhwyso cymalau gweithlu cymdeithasol mewn perthynas â chontractau gwasanaeth sy'n cael eu hallanoli.
- 1.33 Bydd craffu ar gynnydd yn erbyn darpariaethau caffael y Ddeddf drwy'r CPG a'i is-grŵp caffael cyhoeddus fel rhan o'i gylch blynyddol. Bydd canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r CPG a'r is-grŵp a'u cyhoeddi. Bydd crynodeb o adroddiadau blynyddol yr awdurdodau contractio a ddisgrifir uchod yn cael ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o fewn adroddiad caffael blynyddol a gyflwynir i'r Senedd ym mhob blwyddyn ariannol.

1.34 Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau i Weinidogion Cymru ymchwilio i sut mae awdurdodau contractio yn ymgymryd â chaffael cyhoeddus.

Nodau ac Amcanion

1.35 O fewn darpariaethau'r Ddeddf newydd, fel y'i disgrifir yn y Memorandwm Esboniadol, ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd ar ôl gweithredu'r Ddeddf mae'n rhaid i Weinidogion Cymru adrodd ar ganfyddiadau'r gwerthusiad o broses ac effaith y Ddeddf i'r Senedd.¹² Nod trosfwaol yr ymchwil yw cefnogi'r ddarpariaeth ôl-weithredu ar ôl cyfnod o bum mlynedd, drwy gymryd y cam cyntaf wrth sefydlu fframwaith at ddibenion gwerthuso: cynhyrchu Theori Newid i osod y sylfaen a darparu pwynt cyfeirio meincnod ar gyfer gwaith gwerthuso yn y dyfodol. Bydd ymchwil yn y dyfodol yn archwilio i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi cyflawni'r hyn yr oedd yn ei fwriadu.

1.36 Cafodd y RhYF y dasg gan Gyfarwyddiaeth PGCGT i gynhyrchu theori newid i gasglu manylion ynghylch pam mae'r Ddeddf yn angenrheidiol a'r hyn y mae'n anelu at ei gyflawni. Bydd datblygu theori newid ar gyfer y Ddeddf yn helpu Llywodraeth Cymru i lunio canlyniadau realistig a sefydlu dealltwriaeth gyffredin o'r strategaethau i'w defnyddio i gyflawni'r nodau. Mae theori newid hefyd yn nodi gofynion data a ffynonellau data posibl i fonitro a gwerthuso sut mae'r Ddeddf yn gweithio i asesu cyflawniadau gwirioneddol yn erbyn canlyniadau a ragwelir.

1.37 Bydd y theori newid a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn darparu asesiad o amodau cyn i'r Ddeddf ddechrau y gellir mesur newid a chynnydd yn ei erbyn. Bydd y theori newid hefyd yn llywio datblygiad fframwaith gwerthuso, gan ddarparu sail y gall gwerthuswyr yn y dyfodol asesu sut mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu a pha allbynnau mae'n eu cynhyrchu (h.y. gwerthuso prosesau); a monitro a gwerthuso effaith y ddeddfwriaeth yn gadarn dros y 5 mlynedd nesaf.

1.38 Yr amcanion ymchwil penodol oedd:

- Ymgynghori ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru i gynhyrchu tri model rhesymeg ar gyfer darpariaethau partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a

¹² Gweler 'Pennod 11: Adolygiad Ôl-Weithredu' y Memorandwm Esboniadol (tt. 126-128).

chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol y Ddeddf; a phedwerydd model rhesymeg ar gyfer sefydlu'r CPG.

- Profi a mireinio'r modelau rhesymeg a theori newid sylfaenol gyda rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol o ystod o sectorau.
- Llywio'r fframwaith gwerthuso yn y dyfodol, drwy ddarparu awgrymiadau ar fonitro a gwerthuso egwyddorion y Ddeddf i fesur ei chynnydd. Bydd hyn yn cynnwys nodi data y byddai angen eu casglu a sut y dylid eu dadansoddi i helpu i fynd i'r afael â gofynion gwerthuso yn y dyfodol, sy'n debygol o gael ei wneud gan gyflenwr allanol.

1.39 Rhagwelir y bydd y theori newid hefyd yn cael ei ddefnyddio fel offeryn cyfathrebu, gan gynorthwyo gyda phenderfyniadau mewnol a datblygu polisi, ac offeryn i gyfathrebu'n glir â rhanddeiliaid ynglŷn â'r hyn y mae'r Ddeddf yn bwriadu ei gyflawni.

Cwmpas

1.40 Roedd cwmpas y theori newid wedi'i gyfyngu i gwmpasu tair egwyddor mewn un gweithdy estynedig gyda rhanddeiliaid, gan gwmpasu partneriaethau cymdeithasol, yr CPG a gwaith teg. Ni chynhaliwyd unrhyw weithdy caffael gyda rhanddeiliaid oherwydd y nifer isel a dderbyniodd y gwahoddiadau gweithdy. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran fethodoleg isod.

1.41 Cynhaliwyd yr ymchwil theori newid rhwng Tachwedd 2022 a Mehefin 2023, a bu'n orgyffwrdd am gyfnod wrth i'r Senedd graffu ar y Bil. Cynhyrchwyd y modelau rhesymeg drafft a ddatblygwyd gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022, pan oedd y Bil yng Nghyfnod 2; cynhaliwyd y gweithdy gyda rhanddeiliaid ym mis Mawrth 2023, ar ôl trafodion Cyfnod 4 y Bil.¹³

Strwythur yr Adroddiad

1.42 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran Dau** yn amlinellu'r dull methodolegol o ymdrin â'r ymchwil.

¹³ Gweler [tudalennau gwe Busnes y Senedd](#) i gael cofnod o hynt y Ddeddf. [Cyrchwyd 19 Medi 2023]

- Mae **Adrannau Tri, Pedwar a Phump** yn eu tro yn manylu ar ganfyddiadau theori newid ar gyfer y DPG, yr CPG a gwaith teg.
- Mae **Adran Chwech** yn cyflwyno'r model rhesymeg a gynhyrchwyd yn fewnol ar gyfer caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.
- Mae **Adran Saith** yn cynnig dull ar gyfer monitro a gwerthuso'r Ddeddf yn y dyfodol.

Mae **Adran Wyth** yn crynhoi'r casgliadau allweddol o'r ymchwil ac yn rhestru rhai argymhellion mewn perthynas â'r fframwaith gwerthuso yn y dyfodol.

2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn manylu ar y fethodoleg a ddefnyddir i ddatblygu'r theori newid ar gyfer y Ddeddf.

Adeiladu Theori Newid ar gyfer y Ddeddf

- 2.1 Mae theori newid yn offeryn cyffredin a dull methodolegol a ddefnyddir i ddisgrifio sut a pham y disgwylir i ymyrraeth (yn yr achos hwn, y Ddeddf) weithio. Nod theori newid yn y pen draw yw disgrifio'r newid disgwylid; mae'n disgrifio'r llwybrau tuag at newid ac yn esbonio'r modd y deallir bod gweithgareddau ymyrraeth yn cynhyrchu cyfres o ganlyniadau dymunol sy'n cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau/effaith derfynol a fwriadwyd. Mae'r modelau rhesymeg yn dangos y theori newid sylfaenol mewn dilyniant rhesymegol sy'n dangos beth yw canlyniadau arfaethedig y Ddeddf a'r effaith tymor hwy.
- 2.2 Mae'r [Magenta Book](#) yn disgrifio sut y dylai gwaith gwerthuso lywio datblygiad ymyrraeth ar y pwynt cynharaf posibl. Dylai'r modelau rhesymeg a gofynion data cysylltiedig hefyd gael eu creu ymlaen llaw a'u hailystyried yn ystod eu gweithredu ac ar ôl cyfnod gweithredu (2020, t. 12).
- 2.3 Mae theori newid yn broses ac yn allbwn. Mae datblygu theori newid fel arfer yn cynnwys sawl cam. Ar gyfer y Ddeddf, yn gyntaf roedd angen nodi'r effeithiau a ddymunir gyda rhanddeiliaid mewnol.¹⁴ Hynny yw, nodi pa ganlyniadau y rhagwelodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Ddeddf yn eu cyflawni. Nesaf, ystyriwyd y camau a amlinellwyd isod gyda rhanddeiliaid mewnol i fapio model rhesymeg drafft o sut y disgwylid i'r Ddeddf weithio i gynhyrchu'r effeithiau a ddymunir:
- **Cyd-destun:** Beth yw'r angen a'r cyd-destun ar gyfer yr ymyriad?
 - **Mewnbynnau:** Pa adnoddau sydd eu hangen er mwyn i'r Bil fod yn effeithiol? (e.e. adnoddau staff, arbenigedd)
 - **Gweithgareddau:** Beth sydd angen ei wneud gyda'r mewnbynnau i sicrhau newid? (e.e. polisi neu fenter benodol)


¹⁴ Ar y cam hwn o'r gwaith maes, roedd y ddeddfwriaeth yn dal i fod ar ffurf drafft, fel Bil roedd y Senedd yn craffu arno.

- **Allbynnau:** Beth fydd canlyniad y mewnbynnau a'r gweithgareddau?
- **Canlyniadau:** Beth yw'r canlyniadau tymor byr neu ganolog a ddymunir a/neu a ragwelir? Beth yw'r effeithiau hirdymor a ddymunir / a ragwelir?
- **Risgiau:** Pa rwystrau, maglau neu heriau allai atal y canlyniadau rhag cael eu cyflawni?
- **Rhagdybiaethau:** Beth rydym yn tybio sy'n wir o ran cyflawni'r canlyniadau? Beth sy'n sail i resymeg yr ymyrraeth? Beth rydym yn gobeithio y bydd yn digwydd?

Yna cafodd y model rhesymeg drafft ei brofi a'i fireinio gyda rhanddeiliaid:

- 2.4 Dangosir y camau allweddol, neu'r llwybr achosol neu'r gadwyn achosol, a ddisgrifir mewn model rhesymeg yn Ffigur 1:

Ffigur 1: Camau allweddol model rhesymeg



- 2.5 Roedd datblygu'r modelau rhesymeg yn helpu i ddatgelu risgiau posibl a allai ddigwydd ar hyd y gadwyn achosol. Pan gânt eu nodi'n gynnar, gellir rhoi mesurau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd o ddechrau'r ymyrraeth.
- 2.6 Roedd datblygu'r theori newid hefyd yn gyfle i nodi, trafod a herio rhagdybiaethau sefydledig neu rhai heb eu hystyried drwy'r broses o adeiladu a phrofi'r llwybrau achosol. Archwiliwyd gofynion data, monitro a gwerthuso hefyd yn ystod y broses o ddatblygu'r theori newid.
- 2.7 Roedd datblygu theori newid a'r modelau rhesymeg cysylltiedig ar gyfer y Ddeddf yn broses gyfranogol a hwyluswyd drwy'r gweithdai gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Ceisiodd yr ymchwil gynnwys ystod amrywiol o wybodaeth a chyflawni consensws drwy greu dealltwriaeth a disgwyliadau a rennir. Roedd y gweithdai yn darparu fforwm i rhanddeiliaid fynegi eu rhagdybiaethau o'r newidiadau disgwyliedig yn sgil y Ddeddf.

2.8 Mae'r theori newid a'r modelau rhesymeg cysylltiedig sydd wedi deillio o hyn yn darparu meincnod ar gyfer gwerthuso yn y dyfodol. Roedd dadansoddiad y theori newid hefyd yn sail i awgrymiadau'r RhYF ar gyfer datblygu fframwaith cyffredinol ar gyfer y gofyniad gwerthuso prosesau ac effaith a bennir ym 'Mhennod 11: Adolygiad ôl-weithredu' Memorandwm Esboniadol y Ddeddf (LIC 2023a, tt 126-128).

Dylunio Ymchwil

2.9 Er mwyn mynd i'r afael â nod trosfwaol yr ymchwil, mabwysiadwyd y dull ansoddol a ddisgrifir isod gan ddefnyddio methodoleg theori newid a thrafodaethau gweithdai, a gynhaliwyd ar wahân gydag arweinwyr polisi a rhanddeiliaid:

Cwmpasu Cychwynnol

2.10 Dechreuodd y prosiect gydag adolygiad o allbynnau allweddol a gyhoeddwyd hyd yma (e.e. Memorandwm Esboniadol) a chyfarfodydd cwmpasu gyda swyddogion polisi o Gyfarwyddiaeth CPGCGT. Datblygwyd Manyleb Ymchwil a oedd yn cynnwys nodau a methodoleg a dyluniad ymchwil, a dogfennaeth rheoli prosiectau allweddol gysylltiedig (e.e., Siart Gantt, Cofrestr Risg). Roedd y RhYF hefyd yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Bwrdd Prosiect y Bil ar y pryd.

2.11 Drwy aelodaeth o'r Bwrdd Prosiect, ymgynghori â swyddogion polisi ac adolygiad o ddeunyddiau cyhoeddedig ar dudalennau gwe Busnes y Senedd, cafodd y RhYF ddiweddariadau ar gynnydd y Bil drwy'r Senedd.

Datblygu'r Modelau Rhesymeg gyda Rhanddeiliaid Mewnol Llywodraeth Cymru

2.12 Dechreuodd y gwaith maes gyda datblygiad y modelau rhesymeg drafft. Casglwyd data drwy drafodaethau gyda rhanddeiliaid polisi allweddol Llywodraeth Cymru ac adolygiad dogfennol i gynhyrchu modelau rhesymeg drafft.

2.13 Cynhaliwyd tri gweithdy mewnol i ddechrau gydag arweinwyr polisi: ar gyfer partneriaethau cymdeithasol/CPG; gwaith teg; a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Hwylusodd un ymchwilydd RhYF bob trafodaeth drwy Microsoft Teams, gan rannu'r model drafft perthnasol gyda chyfranogwyr a defnyddio canllaw pwnc i helpu strwythuro'r drafodaeth, tra bod dau arall yn cymryd nodiadau.

2.14 Yn seiliedig ar adborth o adolygiad polisi o'r modelau rhesymeg drafft cychwynnol, cynhyrchwyd model CPG ar wahân, wedi'i lunio o ddata a gasglwyd yn flaenorol, i

adlewyrchu'n well rôl allweddol yr CPG fel mecanwaith ar gyfer adrodd a chraffu ar ddyletswyddau'r Ddeddf a darpariaethau gwaith teg. Profwyd a mireiniwyd y model rhesymeg CPG drafft yn fewnol mewn cyfarfod yn ddiweddarach.

2.15 Mae'r pedwar model rhesymeg olaf a gynhyrchwyd yn fewnol ar gyfer y theori newid ac a gyflwynir yn adran Canfyddiadau'r adroddiad hwn ar gyfer y canlynol:

- DPG
- CPG
- Gwaith Teg
- Dyletswydd Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol

2.16 Roedd ystyried y tair egwyddor a'r CPG ar wahân o fewn y modelu rhesymeg yn caniatáu i fanylion bob un gael eu mapio'n llawnach. Disgrifir y cysylltiadau rhwng pob un ohonynt o fewn naratif theori newid sylfaenol yn yr adran Canfyddiadau.

Gweithdai gyda Rhanddeiliaid

2.17 Roedd yr ail gam gwaith maes yn cynnwys gweithdy gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i brofi a mireinio'r theori newid a luniwyd gan gydweithwyr mewnol Llywodraeth Cymru. Yn wreiddiol, roedd tri gweithdy i'w cynnal: ar y DPG, gwaith teg a'r ddyletswydd caffael cyhoeddus, gydag adran ym mhob gweithdy wedi'i neilltuo ar gyfer trafodaeth ar yr CPG. Fodd bynnag, oherwydd niferoedd ymateb isel, roedd yn rhaid adolygu a newid dyluniad yr ymchwil. Cyfunwyd y gweithdai gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol yn un gweithdy hirach a chanslwyd y gweithdy caffael.

2.18 Nod y gweithdy oedd casglu barn gan gyfranogwyr o wahanol sefydliadau a sectorau ar beth ddylai canlyniadau ac effaith tymor hwy y Ddeddf fod a sut orau i'w cyflawni, yn seiliedig ar adolygiad o'r modelau rhesymeg a ddatblygwyd gyda rhanddeiliaid mewnol.

2.19 Er mwyn helpu i fynd i'r afael ag amcanion ymchwil ynghylch datblygu fframwaith gwerthuso, roedd y canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd i helpu i strwythuro'r gweithdy hefyd yn cynnwys cwestiynau penodol ar ddata, monitro a gwerthuso. Cafodd y cwestiynau hyn eu cynnwys mewn trafodaethau i helpu i nodi ffyrdd rhanddeiliaid o

fesur cynnydd y Ddeddf a gwerthuso ei phroses a'i heffaith. Mae'r Canllaw Pwnc yn Atodiad A.

- 2.20 Lluniwyd y rhestr o wahoddedigion ar gyfer gwaith maes gyda rhanddeiliaid allanol gan arweinwyr polisi yn seiliedig ar eu harbenigedd, ymgysylltu blaenorol â'r Bil (ar y pryd), a pherthnasedd darpariaethau'r ddeddfwriaeth i'w sefydliad. Mae'r rhestr wahoddedigion yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur, rhanddeiliaid a sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n cynrychioli buddiannau busnes. Ehangwyd y rhestr wreiddiol o 12 o wahoddedigion i bob gweithdy i gynnwys gwahoddedigion ychwanegol o ystyried y niferoedd ymateb isel.
- 2.21 Anfonwyd gwahoddiadau gweithdy drwy e-bost. Anfonwyd e-bost atgoffa wythnos cyn y gweithdy. Cynhwyswyd Hysbysiad Preifatrwydd a thaflen Wybodaeth i Gyfranogwr fel atodiad i'r gwahoddiadau. Anfonwyd pecyn sleidiau gweithdy manylach at gyfranogwyr a oedd wedi derbyn y gwahoddiad cyn y gweithdy ei hun. Roedd y pecyn sleidiau yn rhoi trosolwg o'r cwestiynau a'r canlyniadau a fyddai'n cael eu gofyn a'u profi yn y drafodaeth yn y gweithdy ei hun. Rhoddodd hyn gyfle i gyfranogwyr fyfyrion a pharatoi ymatebion i'r cwestiynau yn y sesiwn, wrth i'r gweithdy geisio ymdrin â llawer ac roedd y materion dan drafodaeth yn gymhleth eu natur.
- 2.22 Cynhaliwyd y gweithdy ddiwedd mis Mawrth 2023 trwy Microsoft Teams ac fe'i recordiwyd gyda chaniatâd y cyfranogwyr.
- 2.23 Mae Tabl 2 yn rhoi trosolwg o'r dadansoddiad o gyfranogwr yn ôl sector a sefydliad. Daeth cyfanswm o naw cyfranogwr: tri chyfranogwr o Lywodraeth Cymru, un o lywodraeth leol, dau o'r sector busnes, a thri o'r undebau llafur. Roedd tri swyddog polisi o Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru hefyd yn bresennol i ymateb i unrhyw ymholiadau technegol ar y Bil ar y pryd. Hwyluswyd y gweithdy gan ddau ymchwilydd o'r RhYF.
- 2.24 Defnyddiwyd Microsoft Whiteboard i rannu'r canlyniadau drafft a drafodwyd gyda swyddogion mewnol Llywodraeth Cymru ac i symleiddio'r pwyntiau trafod ar gyfer cyfranogwyr. Roedd y rhain yn fan cychwyn trafodaeth gyda rhanddeiliaid, lle byddent yn bwrw golwg feirniadol dros y canlyniadau ac yn awgrymu ffyrdd y gellir eu golygu i adlewyrchu pryderon allanol.

Tabl 2: Mynychwyr Gweithdy theori newid

Sector	Sefydliad	Adran	Nifer yn bresennol
Llywodraeth	Llywodraeth Cymru	Polisi Economaidd	1
		Dyfodol Cynaliadwy	1
		Llywodraeth Leol	1
	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	dd/b	1
Busnes	Cydffederasiwn Diwydiant Prydain	dd/b	1
		Siambrau Cymru	dd/b
Undebau Llafur	Undeb yr RMT	dd/b	1
	Unite	dd/b	1
	Unsain	dd/b	1

2.25 Parhaodd y gweithdy tua dwy awr. Oherwydd yr amser cyfyngedig oedd ar gael yn y sesiwn, canolbwyntiodd y drafodaeth yn bennaf ar ystod ddethol o ganlyniadau o fodelau rhesymeg drafft DPG, CPG a gwaith teg. Roedd rhan olaf y gweithdy yn casglu barn ar fesur llwyddiant y Ddeddf.

2.26 Yn ystod y ddau ddiwrnod ar ôl cwblhau'r gweithdy, anfonwyd e-bost dilynol i'r cyfranogwyr yn gwahodd unrhyw adborth ychwanegol ar gwestiynau'r gweithdy. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r e-bost hwn.

Dadansoddi ac Adrodd

2.27 Lawrlwythwyd y recordiad fideo yn ddiogel a'i drawsgrifio yn dilyn y gweithdy gyda rhanddeiliaid. Dadansoddwyd y trawsgrifiad gan ddefnyddio meddalwedd MAXQDA. Cafodd y data eu codio i ddadansoddi'r themâu a'r negeseuon allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdy. Roedd y dadansoddiad yn cynnwys nodi'r hyn y bydd angen ei fesur o dan fframwaith gwerthuso'r dyfodol i ddeall i ba raddau y mae'r newidiadau a ragwelir yn digwydd, sut maent yn digwydd ac ar gyfer pwy.

2.28 Diweddarwyd y modelau rhesymeg i adlewyrchu canfyddiadau o'r gweithdy. Cyflwynir y modelau rhesymeg terfynol ar gyfer y DPG, yr CPG a gwaith teg yn yr adran Canfyddiadau yn yr adroddiad ar y theori newid sylfaenol.

2.29 Cyflwynir y model rhesymeg caffael cyhoeddus drafft ar ddiwedd yr adran Canfyddiadau a bydd angen ei archwilio ymhellach o fewn y gwaith gwerthuso yn y dyfodol (trafodir ymhellach yn y Casgliadau).

Ystyriaethau data

2.30 Mae rhai ystyriaethau a chyfyngiadau allweddol i'r ymchwil i'w cadw mewn cof wrth ddehongli'r canfyddiadau a gyflwynir:

- Nid oedd y sampl ar gyfer y gweithdy gyda rhanddeiliaid yn gynrychioladol. Cynhyrchwyd y rhestr gan swyddogion polisi yn seiliedig ar berthnasedd y Ddeddf i rôl/sefydliad y rhanddeiliaid, eu harbenigedd, lefelau gwybodaeth ac ymgysylltiad blaenorol â'r ddeddfwriaeth.
- Nid oedd llawer wedi derbyn y gwahoddiad ar gyfer y gweithdy i randdeiliaid allanol gymryd rhan yn yr ymchwil. Roedd hyn yn cyfyngu ar gwmpas cyffredinol y gweithdai. Roedd yn rhaid cyfuno'r gweithdai ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a'r CPG yn un gweithdy hirach oherwydd y gyfradd ymateb isel, gan olygu nad oedd yn bosibl, oherwydd cyfyngiadau amser, i archwilio rhai meysydd allweddol y dylid eu profi a'u mireinio ymhellach mewn ymchwil yn y dyfodol.
- Oherwydd y niferoedd ymateb isel i'r gwahoddiad i'r gweithdy, nid oedd yn bosibl ymgymryd ag elfen allweddol o'r dadansoddiad ar gyfer yr egwyddor o gaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol a phrofi a mireinio'r model rhesymeg gyda rhanddeiliaid. Bu'n rhaid canslo'r gweithdy caffael. Mae hwn yn fwch allweddol i fynd i'r afael ag ef mewn ymchwil yn y dyfodol. Mae'r model rhesymeg sydd wedi'i brofi'n fewnol wedi'i gynnwys yn yr adran ganfyddiadau, gyda rhybuddion allweddol yn cael eu hamlygu.
- Mae'r fethodoleg theori newid yn 'Pennod 11 Adolygiad Ôl-weithredu' yn y Memorandwm Esboniadol (tt 126-128) yn disgrifio'r dull ymchwil gwreiddiol. Bu'n rhaid addasu hyn yn dilyn y gyfradd ymateb isel o dri i un gweithdy gyda rhanddeiliaid allanol.
- Yn ystod y gwaith maes roedd y Bil yn mynd rhagddo drwy'r Senedd. Roedd amseroedd y gwaith maes yn golygu bod risg y byddai angen gwelliant pellach

i'r Bil adeg y gweithdy gyda rhanddeiliaid. Fodd bynnag, yn ymarferol, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Bil bryd hynny cyn iddo gael ei basio yn gyfraith.

- Mae'r theori newid yn offeryn hyblyg ac yn fethodoleg y gellir dychwelyd ati wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg. Mae'r theori newid a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata ciplun a gasglwyd tra bod y Bil yn ei gamau olaf, ac yn mynd rhagddo drwy'r Senedd. Mae lle i adolygu a mireinio'r theori newid mewn ymchwil yn y dyfodol.

3. Canfyddiadau'r Gweithdy: Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau trafodaeth y gweithdy theori newid ar y DPG. Gwahoddodd hwyluswyr y gweithdy adborth gan gyfranogwyr ar y canlyniadau hirdymor a restrir yn y modelau rhesymeg a ddatblygwyd yn fewnol gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu barn am elfennau eraill o'r model. Daeth y drafodaeth i ben gydag awgrymiadau gan gyfranogwyr ynghylch sut y gellid monitro a gwerthuso'r darpariaethau'r DPG yn y Ddeddf.

3.2 Mae'r model rhesymeg DPG a adolygwyd yn y gweithdy yn Ffigur 2.

Canlyniadau hirdymor

3.3 I ddechrau'r drafodaeth, cyflwynodd ymchwilyr y RhYF oedd yn hwyluso'r gweithdy y pum canlyniad hirdymor disgwylidig o'r DPG a restrir yn y golofn 'Canlyniadau Hirdymor' yn Ffigur 2 (cyfeiriadau L01 at LO5 yn y model rhesymeg). Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried ai'r canlyniadau hyn, yn eu barn hwy, oedd y rhai 'cywir' ar gyfer y DPG, os oeddent yn adlewyrchu'r lefel ofynnol o uchelgais, ac a oedd unrhyw fylchau yn y canlyniadau a gyflwynwyd.

Safbwyntiau ar ganlyniadau hirdymor y DPG

3.4 Yn y lle cyntaf, gofynnwyd i gyfranogwyr roi adborth ar y canlyniad hirdymor canlynol a ragwelir o ddarpariaeth DPG y Ddeddf (gweler Ffigur 2):

- "Cyflawni egwyddorion partneriaeth gymdeithasol meddalach: cydweithredu (ymrwymiad ar y cyd at lwyddiant); parch (cydnabyddiaeth ar y cyd o fuddiannau ac arbenigedd dilys (ac o bosibl, amrywiol); ymddiriedaeth (didwylledd, tryloywder); llais a chyfranogiad (gwybodaeth, ymgynghori ac ymgysylltu); a buddion cyffredin (canlyniadau gwaith teg, llesiant a gwelliant cynyddol)" (LO3).

Yn ogystal â'r enghreifftiau a ddarparwyd ochr yn ochr â phob un o'r egwyddorion partneriaeth meddalach, awgrymodd cyfranogwyr y gellid ychwanegu canlyniad yn ymwneud â lleihau anghydraddoldebau o fewn cymdeithasau a gweithleoedd at "fuddion cyffredin".

3.5 Gofynnwyd hefyd am adborth ar y canlyniad tymor hwy:

- "Ymgysylltu ystyrion a pharhaus" (LO4).

Awgrymodd y cyfranogwyr y byddai'r canlyniad hwn yn elwa o eglurder pellach ynghylch pwy fyddai'n destun unrhyw ymgysylltu, a sut y byddai gwahanol randdeiliaid yn rhan o'r broses hon. Roedd un cyfranogwr hefyd o'r farn y dylid sicrhau ymgysylltiad ar y cyd gan yr holl randdeiliaid. Yn fwy penodol, awgrymodd y cyfranogwr hwn y gallai fod yn ddefnyddiol egluro beth yw ystyr ymgysylltu gan gyflogwyr neu'r llywodraeth, ac ymgysylltu â'r polisi partneriaethau cymdeithasol ehangach. Cynigiodd cyfranogwr arall gategoreiddio a diffinio canlyniadau ar wahanol lefelau, er enghraifft, ar lefel genedlaethol neu sefydliadol.

3.6 Cyflwynwyd y canlyniadau canlynol hefyd i gyfranogwyr y gweithdy, ond nid oedd gwrthwynebiad iddynt (Ffigur 2):

- "Gweledigaeth / consensws cyffredin ymhlith rhanddeiliaid ar feysydd o ddi-ddordeb i'r ddwy ochr, beth yw partneriaeth gymdeithasol, a sut y gellir ei gweithredu" (MO3).
- "Mae'r holl bartneriaid yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu ar yr un lefel drwy strwythurau partneriaeth gymdeithasol" (LO5).
- "Gall cyrff cyhoeddus ddangos cryfder mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol, gan gynnwys gweithredu ar ganllawiau CPG gan ddechrau gweithredu amcanion partneriaethau cymdeithasol yn effeithiol" (MO2).

Canlyniadau Ychwanegol

3.7 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd unrhyw ganlyniadau ychwanegol y byddent yn eu cynnwys ar wahân i'r rhai a ddatblygwyd yn fewnol gyda swyddogion polisi.

Integreiddio rhwng y Ddeddf a'r Ddeddf Llesiant

3.8 Awgrymodd cyfranogwyr y gweithdy y byddai'n ddefnyddiol petai integreiddiad didor rhwng y Bil a'r Ddeddf Llesiant yn y pen draw, gyda chyd-ddealltwriaeth o sut mae'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn ategu ac yn cydfodoli â'i gilydd ymhlith cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. Byddai angen i'r ddealltwriaeth hon fodoli rhwng rhanddeiliaid wrth bennu eu nodau llesiant.

- 3.9 Trafodwyd ymhellach sut y gallai fod bwllch o ran deall goblygiadau ymarferol y berthynas rhwng y Ddeddf a'r Ddeddf Llesiant, er enghraifft, sut y gallai fod yn rhaid i wahanol adrannau gydweithio o fewn sefydliad wrth bennu amcanion llesiant. Awgrymodd cyfranogwr arall fod sylfaen dda eisoes ar gyfer deall y materion hyn mewn busnesau trwy gysyniadau tebyg, megis Fframwaith Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, sy'n ceisio helpu sefydliadau i reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â ffactorau amgylcheddol cymdeithasol a llywodraethu, a'r nodau, dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir presennol yng Nghymru.

Gweithgareddau ac Allbynnau

- 3.10 Awgrymodd cyfranogwyr y gweithdy y gweithgareddau a'r allbynnau a allai fod eu hangen i gyflawni neu wireddu'r canlyniadau a drafodwyd:

Ymgysylltu

- 3.11 O ran canlyniad ymgysylltu mwy ystyrllon a pharhaus, awgrymodd un cyfranogwr y gallai hyn olygu bod angen mwy o gyfranogiad gan y gweithlu mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac mewn penderfyniadau strategol y gallent gyfrannu atynt o bosibl ond nad ydynt wedi cymryd rhan ynddynt o'r blaen. Efallai y bydd hefyd angen mwy o ymgysylltiad gan gyflogwyr a'r llywodraeth, gyda pholisi, er enghraifft.

Arweiniad

- 3.12 Un llwybr a awgrymwyd i gyflawni'r canlyniadau a restrwyd oedd ei gwneud yn hollol glir i sefydliadau o ran pa newidiadau a ddisgwyllir ganddynt, ac o ran sut mae 'da' yn edrych. Roedd hyn yn bwydo i awgrym cyfranogwyr eraill ynghylch darparu arweiniad statudol. Byddai hyn yn cynnwys prif ddogfen hawdd ei darllen, gan ei gwneud yn haws ei deall ymhlith gwahanol sefydliadau. Yn yr un modd, gellid llunio fframwaith lefel sylfaen ar gyfer adrodd yn y dyfodol, y gellir ei addasu gan wahanol gyflogwyr a sectorau. Fodd bynnag, nid oedd amser yn y gweithdy i ehangu ar sut olwg fyddai ar y fframwaith hwn yn ymarferol.

Addysg a Hyfforddiant

- 3.13 Awgrymodd cyfranogwr arall fod angen addysg, er enghraifft, o ran egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, y Ddeddf Llesiant, gwaith teg, a'r berthynas rhwng yr economi, busnesau ac undebau llafur.
- 3.14 Awgrymwyd hyfforddiant hefyd fel gofyniad, a allai fod ar-lein ac wyneb yn wyneb. Byddai angen deialog barhaus hefyd i fesur dealltwriaeth pawb, a byddai angen hyn ar draws pob sector.

Gweithgareddau categoreiddio

- 3.15 Awgrymodd un cyfranogwr y gall gweithgareddau ddisgyn o dan dri chategori: pobl, proses a pholisi. Bydd cyfuniad o'r rhain yn caniatáu i bob un o'r cyrff gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. O dan bob un o'r categorïau hyn, gellir disgrifio gweithgareddau ar lefel fanwl iawn. Byddai hyn yn galluogi partneriaeth gymdeithasol i fod yn rhan annatod o'r ffordd y maent yn gweithio ym mhob un o systemau'r sefydliadau.

Risgiau

- 3.16 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd fyfyrion ar y canlyniadau a drafodwyd yn y gweithdy hyd yma ar gyfer y DPG ac ystyried a oedd risgiau ychwanegol i'r rhai a nodwyd eisoes gan arweinwyr polisi a allai atal neu rwystro cyflawni'r canlyniadau hyn. Nododd cyfranogwyr y gweithdy risgiau ychwanegol:

Gwahaniaethu rhwng gweithgareddau a chanlyniadau

- 3.17 Roedd un risg yn gysylltiedig â thrafferthion posibl o ran dadgrynhai sut mae sefydliad yn gweithio mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol o'r canlyniadau sy'n deillio o hynny, megis gwell amodau ar gyfer busnes neu lesiant dinasyddion. Mae angen gwneud y gweithgareddau a'r canlyniadau yn amlwg ac yn glir, fel arall gallai nodau ac amcanion y Ddeddf fod yn ddryslyd.

Dealltwriaeth o'r Ddeddf Llesiant

- 3.18 Amlygodd nifer o gyfranogwyr risgiau yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth o'r Ddeddf Llesiant. Mae'r term 'llesiant', er enghraifft, yn aml yn cael ei gamddeall, sy'n gallu arwain at broblemau wrth i gyflogwyr bennu eu nodau llesiant. Os camddeallir y Ddeddf Llesiant yn aml, yn ôl y cyfranogwyr hyn, yna mae'n debygol y bydd bylchau gwybodaeth yn y modd y bydd yn cydfodoli â'r Ddeddf hon. Gellid lliniaru'r risgiau

hyn drwy rai o'r gweithgareddau a awgrymir yn yr adran flaenorol: canllawiau statudol, gosod disgwyliadau, hyfforddiant ac addysg ar y ddau ddarn o ddeddfwriaeth a sut maent yn cyd-gysylltu. Efallai y bydd angen gwaith ychwanegol i ddiffinio, disgrifio ac egluro egwyddorion a themau allweddol yn gliriach. Codwyd yr 'economi llesiant' yn y gweithdy fel enghraifft o rywbeth nad yw wedi'i ddiffinio'n glir.

Yr Hinsawdd Wleidyddol

- 3.19 Roedd risgiau eraill a godwyd gan gyfranogwyr yn gysylltiedig â'r hinsawdd wleidyddol ehangach. Un enghraifft a roddwyd oedd yr hinsawdd o ran cysylltiadau diwydiannol heriol (e.e., streiciau'n ymwneud â chyflog, chwyddiant, a chostau byw), a allai effeithio ar barodrwydd rhanddeiliaid i gymryd rhan fel partneriaid cymdeithasol. Mynegwyd pryderon hefyd am gyfyngiadau deddfwriaethol y setliad datganoli presennol.

Ymgysylltu tocenistaidd

- 3.20 Risg arall a amlygwyd oedd y potensial ar gyfer "ymgysylltu tocenistaidd", lle mae sefydliadau'n trin gofynion y Ddeddf fel ymarfer blwch ticio, yn hytrach na defnyddio'r Ddeddf i wneud cynnydd gwirioneddol. Roedd cyfranogwyr o'r farn bod hwn yn risg bosibl i'r holl bartïon dan sylw.

Ymrwymadau Adnoddau ac Amser

- 3.21 O ran ymrwymadau adnoddau ac amser y Ddeddf, roedd pryder y byddai cynrychiolwyr undebau llafur o dan bwysau i ddangos effeithiolrwydd trafodion partneriaeth gymdeithasol, gan fod aelodau yn talu amdanynt. Gall y pwysau hyn gael eu lleddfu pe bai'r aelodaeth yn teimlo bod canlyniadau cadarnhaol diriaethol.


Dylanwad anghyfartal

- 3.22 Roedd pryder hefyd am ddylanwad anghyfartal ymhlith partneriaid, gyda rhai cyfranogwyr yn codi pryderon efallai na fydd gan undebau llafur yr adnoddau i gael eu hystyried yn bartner cyfartal i'r llywodraeth a chyflogwyr.

Monitro Data

- 3.23 Cafwyd trafodaeth fer yn y gweithdy ynghylch pa ddata y dylid eu defnyddio at ddibenion monitro a gwerthuso. Awgrymodd cyfranogwyr y gellid defnyddio gwledydd eraill, fel Seland Newydd, fel astudiaethau achos i archwilio sut y gellid diffinio a gwerthuso canlyniadau llesiant.

Ffigur 2: Model Rhesymeg y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol



4. Canfyddiadau'r Gweithdy: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau trafodaeth gweithdy theori newid ar yr CPG. Gofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdy adolygu a rhoi adborth ar wahanol agweddau ar y model rhesymeg CPG a gynhyrchwyd yn fewnol gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru.

4.2 Roedd canfyddiadau'r gweithdy yn llywio diweddariad y model rhesymeg CPG a gyflwynwyd yn Ffigur 3, sy'n gynrychiolaeth ddiagramatig o theori newid y Ddeddf fel y mae'n ymwneud â'r CPG.

Canlyniadau hirdymor

4.3 Yn gyntaf, mae'r is-adran hon yn amlinellu barn ar y pum canlyniad CPG hirdymor a awgrymwyd a gyflwynwyd i gyfranogwyr y gweithdy, ac a restrir yn y golofn 'Canlyniadau Hirdymor' yn Ffigur 3 (cyfeiriadau L01 at L05 yn y model rhesymeg). Yna, cyflwynir y canlyniadau ychwanegol roedd cyfranogwyr o'r farn y dylid eu cynnwys yn y model rhesymeg hefyd.

Barn ar ganlyniadau hirdymor yr CPG

4.4 Gofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdy eu barn ar y canlyniad hirdymor canlynol a ragwelir o'r Ddeddf (gweler Ffigur 3):

- "Mae model partneriaeth gymdeithasol yn gweithredu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ledled Cymru" (LO4).

4.5 Ar gyfer y cyfranogwyr, roedd yn bwysig bod y Ddeddf yn darparu ar gyfer diffiniadau penodol o ran cyfrifoldebau grwpiau amrywiol ar wahanol lefelau o'r cenedlaethol, y rhanbarthol a'r lleol. Trafododd y cyfranogwyr a fyddai'r strwythurau rhanbarthol neu leol yn gweithredu penderfyniadau a wneir ar lefel genedlaethol, p'un a fyddai'r gwrthwyneb yn wir, neu a fyddai'r berthynas rhwng y lefelau hyn yn fwy cylchol.

4.6 Pan ofynnwyd am adborth, ni wrthwynebwyd y canlyniadau canlynol gan gyfranogwyr y gweithdy (Ffigur 3):

- "Gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol" (L01).
- "Creu strwythur teirochrog sy'n rhoi llais cyfartal i weithwyr, cyflogwyr a'r llywodraeth, gan sicrhau bod barn partneriaid cymdeithasol yn helpu i lunio darpariaeth polisi" (L02).
- "Newid mewn diwylliant sy'n cael ei yrru gan ffocws ar y cyd (agweddau ac ymddygiadau) a chyfranogiad gyda phartneriaid" (L03).
- "System o bartneriaeth gymdeithasol sy'n hwyluso ymgysylltu â chyd-gynrychiolaeth gweithwyr er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus ac i gefnogi nodau strategol i wella llesiant pobl yng Nghymru" (L05).

Beirniadaeth Arall

- 4.7 Fodd bynnag, roedd rhai beirniadaethau amhenodol ehangach o'r canlyniadau a restrwyd. Yn gyntaf, roedd pryder ymhlith cyfranogwyr fod y canlyniadau a restrwyd yn rhy 'lefel uchel', gan ei gwneud yn aneglur beth oedd disgwyliadau penodol sefydliadau yn yr CPG.
- 4.8 Roedd cyfranogwr y gweithdy hefyd o'r farn bod angen gwahaniaethu cliriach rhwng yr CPG a'r DPG, yn seiliedig ar y gorgyffwrdd rhwng y canlyniadau rhestredig.
- 4.9 Mynegwyd pryderon hefyd ymhlith cyfranogwyr ynghylch sut roedd rhai o'r canlyniadau'n ymddangos yn ehangach na chwmpas yr CPG. O ganlyniad, roeddent o'r farn y gallai fod angen rhywfaint o waith mireinio ar y canlyniadau.

Canlyniadau Ychwanegol

- 4.10 Awgrymodd cyfranogwyr hefyd y gallai canlyniadau ychwanegol gael eu cynnwys yn y model rhesymeg CPG, ar wahân i'r rhai a godwyd i ddechrau yn y gweithdy gan yr hwyluswyr.
- 4.11 Awgrymodd cyfranogwyr fod yr egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a restrir o dan y DPG yn berthnasol, ac felly dylid eu hymgorffori hefyd o fewn y canlyniadau CPG disgwyliedig. Yn ogystal, drwy gynnwys canlyniadau mwy penodol, ystyriwyd bod canlyniadau 'lefel is' yn ddefnyddiol, i helpu i nodi'n union yr hyn oedd i'w gyflawni trwy'r CPG. Ar gyfer cyfranogwyr y gweithdy, dylai'r canlyniadau lefel is hyn

gynnwys mwy o fanylion ar y gwerthoedd a'r ymddygiadau a ragwelir, a manylion pellach gyda'r nod o reoli disgwyliadau rhanddeiliaid.

- 4.12 Roedd cyfranogwyr hefyd o'r farn y dylid gwneud sawl canlyniad yn gliriach ac ehangu arnynt yn fanylach ar gyfer yr CPG. Roedd hyn yn cynnwys darparu rhagor o wybodaeth am sut mae'r CPG yn anelu at gyfrannu at well dealltwriaeth rhwng gwahanol sectorau a rhanddeiliaid a chreu "man diogel" ar gyfer trafodaethau.

Gweithgareddau ac Allbynnau

- 4.13 Awgrymodd cyfranogwyr y gweithdy rai gweithgareddau ac allbynnau ychwanegol i helpu i gyflawni neu wireddu canlyniadau'r CPG. Mae'r canfyddiadau wedi'u nodi isod:

Ymrwymïadau Amser ac Adnoddau

- 4.14 Er mwyn cefnogi'r strwythurau a'r rhyngweithiadau CPG ymhlith y rhanddeiliaid a'r partneriaid, tynnodd cyfranogwyr sylw at yr ymrwymïadau amser ac adnoddau eraill a allai fod eu hangen gan bartneriaid cymdeithasol. Er enghraifft, roedd cyfranogwyr yn disgwyl y byddai angen i rhanddeiliaid allweddol ddyrannu adnoddau tuag at wahanu unrhyw waith sydd ei angen o ganlyniad i'r Ddeddf oddi wrth gyfrifoldebau o ddydd i ddydd cyflogwyr a chynrychiolwyr undebau llafur. Ystyriwyd hyn yn fater a allai fod yn berthnasol i rai rhanddeiliaid o ystyried nifer y fforymau a'r strwythurau a oedd eisoes yn bodoli ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Blaenoriaethu

- 4.15 Awgrymodd un cyfranogwr rywfaint o symleiddio neu flaenoriaethu ystod o strwythurau partneriaeth gymdeithasol, gan alw am fuddsoddi mwy o sylw ac adnoddau yn y strwythurau hynny sydd i weld yn cyflawni'r canlyniadau gorau.

Addysg, Hyfforddiant ac Arweiniad

- 4.16 Roedd cyfranogwyr hefyd o'r farn y gallai partneriaid elwa o weithgareddau addysg a hyfforddiant a gynlluniwyd i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf. Teimlai'r cyfranogwyr y byddai hyn yn cyflwyno heriau, o safbwynt partneriaid sydd angen dysgu am ddeddfwriaeth gymhleth a'i gweithredu, ond hefyd cyfleoedd i bartneriaid fanteisio ar fuddion y ddeddfwriaeth.
- 4.17 Er mwyn cynorthwyo gyda gweithrediad yr CPG a chefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau, gan eu gwneud yn fwy cyraeddadwy, awgrymodd rhai cyfranogwyr ddatblygu arweiniad pellach ar gyfer rhanddeiliaid.

Risgiau

- 4.18 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd fyfyrion ar y canlyniadau a drafodwyd yn y gweithdy hyd yma ar gyfer yr CPG ac ystyried a oedd risgiau ychwanegol i'r rhai a nodwyd eisoes gan arweinwyr polisi a allai atal neu rwystro cyflawni'r canlyniadau hyn. Nododd cyfranogwyr y gweithdy risgiau ychwanegol:

Ansawdd y Cyngor

- 4.19 Roedd y cyfranogwyr yn pryderu y gallai adnoddau prin a chapasiti cyfyngedig y sefydliadau partner ei gwneud hi'n anodd i'r CPG ddarparu cyngor o ansawdd da.

Cynhyrchiant Trafodaethau

- 4.20 Cododd y cyfranogwyr bryderon hefyd y gallai'r CPG fod yn rhy "gwrtais" gan arwain at ganfyddiadau o "fod yn ffug", yn hytrach na chyngor sy'n hwyluso sgysiau gonest ac agored rhwng partneriaid. Yn yr un modd, cododd rhai cyfranogwyr bryderon y gallai'r CPG droi'n "siop siarad", gan hwyluso trafodaeth anghynhyrchiol yn hytrach na gweithredu effeithiol.

- 4.21 Mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon hefyd y gallai undebau llafur, os ydynt yn rhan o'r CPG, golli mynediad i'r mecanweithiau y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd o safbwynt anghydfod ffurfiol â chyflogwyr. At hynny, roedd y cyfranogwyr hyn yn pryderu y gallai'r rhai sydd â buddiant awgrymu bod undebau llafur wedi colli eu gallu i fynd i anghydfod ffurfiol o ganlyniad i'r newidiadau a ddaeth yn sgil y Ddeddf, hyd yn oed os gallai undebau llafur barhau i wneud hynny mewn gwirionedd.

Newidiadau i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol blaenorol

- 4.22 Roedd un cyfranogwr yn pryderu am newidiadau o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol blaenorol, a oedd, yn ôl y cyfranogwr, wedi dangos ei fod yn effeithiol o ran ei bwrpas a'i swyddogaeth yn ystod pandemig COVID-19, a allai wneud yr CPG yn llai effeithiol.¹⁵

¹⁵ Sefydlwyd Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol Llywodraeth Cymru fel sianel gychwynnol i Weinidogion Cymru gysylltu â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid ehangach, gan greu partneriaeth wirfoddol i ddarparu ar gyfer llais a chyfranogiad partneriaid cymdeithasol, mewn ymateb i bandemig COVID-19. Am ragor o wybodaeth, gweler y [Memorandwm Esboniadol](#) (t. 36).


Dealltwriaeth o'r Ddeddf Llesiant

- 4.23 Risg arall a drafodwyd gan gyfranogwyr oedd diffyg dealltwriaeth o'r Ddeddf Llesiant a'r hyn y mae hyn yn ei awgrymu ar gyfer gweithredu gwasanaethau cyhoeddus, a sut y gallai dealltwriaeth gyfyngedig o'r Ddeddf Llesiant rwystro gweithrediad yr CPG.
- 4.24 I'r gwrthwyneb, awgrymodd cyfranogwyr y gallai un canlyniad cadarnhaol anfwriadol drwy'r broses o gyflwyno'r Ddeddf, fod yn un lle mae mwy o bobl yn cael eu haddysgu ar egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, y Ddeddf Llesiant, a'r berthynas rhwng yr economi, gwaith teg, busnesau ac undebau llafur.

Capasiti

- 4.25 Roedd risg arall a nodwyd gan gyfranogwyr y gweithdy yn canolbwyntio ar faterion capasiti. Roedd y problemau a nodwyd yn cynnwys digon o amser i randdeiliaid adolygu papurau a llunio barn cyn cyfarfodydd CPG; y gofynion o ran cymryd rhan yn yr CPG a allai fod ar bob partner cymdeithasol, yn ogystal ag unrhyw waith gan bartneriaid fforymau eraill; a'r pryderon y gallai'r CPG ei chael hi'n anodd darparu cyngor mewn modd cyflym, hyblyg ac ymatebol o fewn yr amserlenni a bennir gan brosesau datblygu polisi.

Ffigur 3: Model Rhesymeg y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol



Ffynhonnell: Ffigurau amcangyfrifedig yn IN1 ac IN3 o'r [Memorandwm Esboniadol](#), paragraffau 215 a 220. (tt. 69, 70).

5. Canfyddiadau'r Gweithdy: Gwaith Teg

- 5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau trafodaeth y gweithdy theori newid ar waith teg. Gofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdy adolygu a rhoi adborth ar wahanol agweddau ar y model rhesymeg gwaith teg a gynhyrchwyd yn fewnol gydag arweinyr polisi Llywodraeth Cymru.
- 5.2 Roedd canfyddiadau'r gweithdy yn llywio diweddariad y model rhesymeg gwaith teg a gyflwynwyd yn Ffigur 4, sy'n gynrychiolaeth ddiagramatig o theori newid y Ddeddf fel y mae'n ymwneud â gwaith teg.

Canlyniadau hirdymor a chanolig

- 5.3 Yn gyntaf, mae'r is-adran hon yn amlinellu barn ar y canlyniadau gwaith teg hirdymor a chanolig a awgrymwyd a gyflwynwyd i gyfranogwyr y gweithdy, a restrir yn y colofnau 'Canlyniadau Tymor Canolig' a 'Canlyniadau Hirdymor' yn Ffigur 4 (cyfeiriadau M01 at MO4; a LO1 at L08 yn y model rhesymeg). Yna, mae'r adroddiad yn cyflwyno'r canlyniadau ychwanegol hynny roedd cyfranogwyr o'r farn y dylid eu cynnwys yn y model rhesymeg hefyd.

Sylwadau ar y Canlyniadau

- 5.4 Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr o'r farn mai'r canlyniadau gwaith teg a restrir yn Ffigur 4 oedd y rhai cywir, gyda newidiadau ond yn cael eu hawgrymu ar gyfer un o'r canlyniadau:
- "Gwelliannau mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu" (LO3)
- 5.5 Awgrymodd y cyfranogwyr ymgorffori Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol yn y Ddeddf i wella atebolrwydd, a chynigiwyd defnyddio'r Cynllun i gynorthwyo'r broses adrodd, yn debyg i'r modd y mae angen adrodd ar y bwloch cyflog rhwng y rhywiau yn rheolaidd.
- 5.6 Ni chafodd y canlyniadau canlynol eu herio gan gyfranogwyr y gweithdy (Ffigur 4):
- "Gweithle ymgysylltiedig a gwybodus o ganlyniad i bartneriaethau cymdeithasol cryfach" (LO2).

- "Cysyniad o waith teg wedi'i ymgorffori mewn prosesau caffael, gyda gwell dangosyddion i fesur integreiddiad ehangach arferion gwaith teg ar draws cyrff, busnesau a sefydliadau Cymru" (LO8).
- "Cefnogaeth gref i system partneriaeth gymdeithasol ac ymrwymiad i waith teg gan bartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill" (MO1).
- "Datblygu sylfaen dystiolaeth gryfach sy'n archwilio manteision llesiant gwaith teg, gyda systemau atebolrwydd yn cael eu darparu drwy'r CPG a'r is-grŵp caffael" (MO3).

Canlyniadau Ychwanegol

5.7 Awgrymwyd canlyniadau hirdymor ychwanegol gan gyfranogwyr y gweithdy, fel a ganlyn:

Integreiddio â'r Ddeddf Llesiant

5.8 Roedd un cyfranogwr o'r farn bod angen integreiddio mwy di-dor rhwng y Ddeddf a'r Ddeddf Llesiant, er mwyn helpu i gefnogi cyd-ddealltwriaeth ymhlith cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill o sut mae'r ddwy gyfraith yn ategu ei gilydd ac yn cydfodoli. Roedd y trafodaethau rhwng y cyfranogwyr yn canolbwyntio ar y ffyrdd mae rhai sefydliadau yn deall y Ddeddf Llesiant mewn ffyrdd gwahanol.

Asesu Cyflawniad Canlyniadau

5.9 Roedd canlyniad arall a awgrymwyd yn y gweithdy yn canolbwyntio ar sicrhau bod y bobl y mae'r Ddeddf yn effeithio arnynt (e.e. gweithwyr) yn cael llais uniongyrchol wrth asesu a gyflawnwyd canlyniadau gwaith teg y Ddeddf ai peidio.

Gweithgareddau ac Allbynnau

5.10 Awgrymodd cyfranogwyr y gweithdy rai gweithgareddau ac allbynnau ychwanegol i helpu i gyflawni neu wireddu'r canlyniadau gwaith teg. Mae'r canfyddiadau wedi'u nodi isod:

Rhannu Arferion Gorau

5.11 Roedd cyfranogwyr o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol i wahanol sectorau a sefydliadau rannu arferion gorau, ac y gellid hwyluso hyn gan fforymau, gan y gallai

fod egwyddorion yn ymwneud â'r agenda Gwaith Teg y gallai busnesau'r sector preifat, er enghraifft, eu mabwysiadu. Gallai sefydliadau'r sector preifat hefyd rannu gwybodaeth ac arbenigedd â'r sector cyhoeddus, gan arwain at fuddion cyffredin i'r ddau sector.

Deall Gweithluoedd

- 5.12 Awgrymodd rhai cyfranogwyr fod angen i sefydliadau ddeall eu gweithluoedd eu hunain yn well o fewn y cyd-destun a bennir gan y Ddeddf, gyda'r cyfranogwyr hyn yn disgrifio sut y bydd pob sefydliad unigol yn dechrau o le gwahanol o ran gwaith teg, er enghraifft, bod â niferoedd recriwtio gwahanol o ran rhywedd, hil neu anabledd a bylchau cyflog. O bosibl, bydd sefydliadau'n cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd tuag at hyrwyddo egwyddorion gwaith teg. I'r cyfranogwyr hyn felly, roedd yn rhaid i sefydliadau fod yn gyfrifol am ddeall eu rhwystrau a'u cyfleoedd eu hunain mewn perthynas â gwaith teg; ac o'r ddealltwriaeth hon, byddai sefydliadau'n gwybod beth oedd y camau priodol penodol i'w cymryd. Disgrifiodd y cyfranogwyr rôl i Lywodraeth Cymru wrth gynnig cymorth dadansoddol, i helpu sefydliadau ddeall eu gweithluoedd eu hunain yn well, gyda chynghor wedi'i deilwra ar gyfer sefydliadau unigol ar ffyrdd o wella canlyniadau gwaith teg.

Addysg

- 5.13 Unwaith eto, amlygwyd cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf drwy weithgareddau addysgol gan gyfranogwyr fel rhywbeth allweddol, gan gynnwys wrth weithio tuag at gyflawni canlyniadau gwaith teg. Er enghraifft, byddai angen i rai sefydliadau ddysgu mwy am yr hyn yw gwaith teg, a sut y gellid mabwysiadu'r gwerthoedd a'r egwyddorion sylfaenol yn eu lleoliadau gwaith. I gyfranogwyr, gallai hyn helpu i liniaru'r risgiau bod prosesau'r Ddeddf yn teimlo fel ymarfer blwch ticio i gyflogwyr. Amlygwyd y [Cynllun Gweithredu ar Fanwerthu](#) (LIC, 2023b) a'i astudiaethau achos cysylltiedig yn y gweithdy fel enghraifft ddefnyddiol o sut y gellid cyflawni gwaith addysgu sefydliadau ar waith teg.¹⁶

Risgiau

- 5.14 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd fyfyrion ar y canlyniadau a drafodwyd yn y gweithdy hyd yma ar gyfer gwaith teg ac ystyried a oedd risgiau ychwanegol i'r rhai a nodwyd eisoes gan arweinwyr polisi a allai atal neu rwystro cyflawni'r canlyniadau hyn. Nododd cyfranogwyr y gweithdy risgiau ychwanegol:

¹⁶Ar gael drwy: [Cydweithio er budd manwerthu: Cynllun Gweithredu Fforwm Manwerthu Cymru \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#). [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].

Cyd-destun Economaidd Ehangach

- 5.15 Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn y gallai amodau economaidd ddylanwadu ar ganfyddiadau ynghylch beth yw canlyniad gwaith 'teg'. Er enghraifft, gellid canfod yr hyn y gellid ei ystyried yn 'deg' yn ystod cyfnod o gyni yn wahanol yn ystod cyfnod o dwf economaidd. Disgrifiwyd pwysau ar gyllidebau'r sector cyhoeddus a galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus fel rhwystrau posibl i wella telerau ac amodau cyflog o fewn gweithlu'r sector cyhoeddus.

Deddfwriaeth sy'n cyd-fodoli

- 5.16 Cododd y cyfranogwyr bryderon ynghylch sut y gallai busnesau ei chael hi'n anodd cydbwyso nodau gwaith teg â'r rhai sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, y Ddeddf Llesiant, a nodau sero net wrth gaffael.


Costau

- 5.17 Roedd cyfranogwyr hefyd yn pryderu y gallai'r Ddeddf ychwanegu amodau ychwanegol ar fusnesau a chynyddu costau o ran llwyth gwaith ychwanegol ac ymrwymadau amser, gan arwain at, er enghraifft, gynnydd mewn prisiau. Roedd rhai cyfranogwyr yn poeni y byddai'r costau hyn yn faich ychwanegol ar fusnesau sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd yn ariannol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Fodd bynnag, cafwyd gwrth-ddadl yn y drafodaeth gweithdy o ran sut mae costau hefyd ynghlwm â gwaith annheg ac arferion datblygu anghynaliadwy, sy'n faich ar weithwyr, cyflogwyr a'r gymdeithas ehangach. Roedd cyfranogwyr o'r farn y byddai'r Ddeddf yn galluogi asesiad tymor hwy ar gostau a buddion. Nodwyd hefyd, er y gallai pris contractau gynyddu, y gallai hyn arwain at y llywodraeth, er enghraifft, yn caffael llai o gontractau cyhoeddus, yn hytrach na busnesau unigol yn amsugno'r costau.

Ymarfer blwch ticio

- 5.18 Roedd risg arall a amlygwyd gan gyfranogwyr yn canolbwyntio ar bryderon ynghylch sut y gallai mynd i'r afael â darpariaethau'r Ddeddf ddod yn "ymarfer blwch ticio" i lywodraethau neu gyflogwyr, gan arwain efallai at weithwyr yn canfod nad ydynt yn profi 'amgylchedd gwaith teg' go iawn.

Ffigur 4: Model Rhesymeg Gwaith Teg



6. Canfyddiadau'r Gweithdy: Monitro Data

- 6.1 Roedd rhan olaf y gweithdy yn canolbwyntio ar sut y gellir defnyddio data i ddangos tystiolaeth o allbynnau a chanlyniadau.

Cynnwys barn gweithwyr wrth werthuso

- 6.2 Yn dilyn pryderon a godwyd yn y gweithdy o ran y ffaith y gallai cyflwyno'r Ddeddf fod yn "ymarfer blwch ticio" i Lywodraeth Cymru a chyflogwyr, roedd cyfranogwyr o'r farn y dylid cynnwys gweithwyr wrth asesu a oedd canlyniadau'n cael eu cyflawni ai peidio, neu i ba raddau, y cyflawnwyd canlyniadau. Felly, dylai ymarferion casglu data gynnwys barn gweithwyr wrth fonitro ac asesu gwaith teg.

Cyd-destun Economaidd Ehangach

- 6.3 Awgrymodd un cyfranogwr y dylid monitro a gwerthuso canlyniadau gwaith teg yn erbyn y cyd-destun economaidd ehangach, i olrhain a mesur cynnydd tuag at ganlyniadau gwaith teg yn erbyn dangosyddion macro-economaidd ehangach, megis, er enghraifft, twf economaidd a chostau byw.

Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol

- 6.4 Cynigiodd cyfranogwyr y gweithdy hefyd y dylid defnyddio'r Cynllun i helpu i ddatblygu offeryn adrodd neu fframwaith i gyflogwyr.

Canlyniadau Llesiant

- 6.5 Roedd cyfranogwyr o'r farn y byddai theori newid a'r modelau rhesymeg cysylltiedig (a gyflwynir yn yr adroddiad hwn) yn disgrifio'r llwybr i newid a ddaw yn sgil y Ddeddf; gyda'r canlyniadau'n canolbwyntio yn y pen draw ar wella canlyniadau llesiant drwy, er enghraifft, ymyriadau gyda'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus ac ymgorffori partneriaethau cymdeithasol o fewn gweithrediadau cyrff cyhoeddus. Felly, ar gyfer y rhai fyddai'n cymryd rhan, dylai asesiadau ar ba mor llwyddiannus y mae'r Ddeddf wedi bod gynnwys gwerthuso i ba raddau y mae wedi cyfrannu at wella canlyniadau llesiant yng Nghymru. Disgrifiodd y cyfranogwyr sut y gallai gwahanu effeithiau'r Ddeddf o'r ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar gyflawni'r nodau llesiant fod yn anodd.

6.6 Disgrifiodd y cyfranogwyr sut roedd angen cymysgedd o ffynonellau data i helpu i fesur a llywio llwyddiant y Ddeddf. Er enghraifft, cynigiodd cyfranogwyr ddefnyddio dulliau gwerthuso a ddatblygwyd ar gyfer y Ddeddf Llesiant i helpu i lywio gwerthuso agwedd DPG y Ddeddf. Er enghraifft, gellid defnyddio dangosyddion cenedlaethol fel y nodir o dan y Ddeddf Llesiant i fesur cynnydd yn erbyn canlyniadau disgwylidig y Ddeddf ar lefel y genedl. Nodwyd bod gan randdeiliaid allweddol, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, rôl wrth gasglu, adrodd a lledaenu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn cyrff cyhoeddus. Disgrifiwyd arolygon staff fel offeryn ar gyfer casglu data o fewn Llywodraeth Cymru, a chyfeiriwyd at fecanweithiau sicrwydd mewnol eraill mewn sefydliadau y gellid eu defnyddio fel ffynonellau data ar gyfer archwilio cynnydd yn erbyn canlyniadau llesiant arfaethedig y Ddeddf.

Gofynion Adrodd a Gwaith Partneriaeth

6.7 Trafododd cyfranogwyr y modd y gellid ystyried llwyddiant y Ddeddf pe bai gweithio mewn partneriaeth ar lefelau sefydliadol, lleol a rhanbarthol yn cael ei ymgorffori. Ar gyfer cyfranogwyr, byddai hyn yn cael ei amlygu drwy barch rhwng partïon at ei gilydd, gan gynnwys ynghylch yr hyn y maent i gyd yn ei gyfrannu tuag at fynd i'r afael â darpariaethau'r Ddeddf.

6.8 Ar y lefelau lleol a sefydliadol, roedd cyfranogwyr o'r farn y gellid mesur cynnydd yn erbyn canlyniadau disgwylidig y Ddeddf gan ddefnyddio'r gofynion adrodd ffurfiol ar gyfer y cyrff cyhoeddus hynny o fewn cwmpas y Ddeddf. Er enghraifft, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau ar weithrediad y DPG, gan nodi sut y buont yn gweithio gyda'u staff i gyflawni'r ddyletswydd. Rhaid i'r undebau llafur neu gynrychiolwyr staff eraill gytuno i'r adroddiad hwn.


6.9 Mae gan y dyletswyddau caffael hefyd ofynion adrodd ynghlwm â nhw. Yn ôl y cyfranogwyr, dangosydd arall o lwyddiant fyddai mwy o adroddiadau yn cael eu cytuno rhwng cyflogwyr ac undebau llafur dros amser.

6.10 Trafodwyd hefyd yn y gweithdy sut y gallai rhai o fanteision disgwylidig y Ddeddf liniaru neu atal canlyniadau negyddol rhag digwydd. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn teimlo y gallai hyn fod yn anodd ei grisialu mewn gwerthusiad.

7. Model Rhesymeg Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol

- 7.1 Cafodd y gweithdy caffael ei ganslo oherwydd y niferoedd isel wnaeth ymateb i'r gwahoddiad i'r gweithdy. Mae'r model rhesymeg yn Ffigur 5 yn seiliedig ar ddata a gasglwyd trwy drafodaethau gydag arweinwyr polisi diwygio caffael Llywodraeth Cymru yn unig; nid yw wedi cael ei brofi a'i fireinio gyda rhanddeiliaid allanol.

Ffigur 5: Model Rhesymeg Caffael



8. Monitro a Gwerthuso'r Ddeddf yn y Dyfodol

- 8.1 Mae'r adran hon yn seiliedig ar wybodaeth o'r theori newid i fynd i'r afael ag amcan ymchwil allweddol; datblygu awgrymiadau ar gyfer fframwaith monitro a gwerthuso cadarn i fesur cynnydd y Ddeddf. Amlinellir rhai camau allweddol ar gyfer cefnogi paratoadau monitro a gwerthuso, nodir amcanion gwerthuso posibl yn y dyfodol, a darperir asesiad o'r ffyrdd y gellid bodloni'r amcanion hyn yn gredadwy yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU (Magenta Book, Trysorlys EM 2011). Trafodir gofynion casglu data a ffynonellau data posibl i helpu i fynd i'r afael ag amcanion gwerthuso yn y dyfodol hefyd. Yn gyffredinol, mae'r adran yn cynnig strategaeth monitro a gwerthuso amlinellol ar gyfer mireinio pellach yn ystod gwaith ymchwil yn y dyfodol.
- 8.2 Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir gofynion gwaelodlin, prosesau a gwerthuso effaith fel camau allweddol ar gyfer adolygiad ôl-weithredu'r Ddeddf. Amlinellir gweithgareddau a awgrymir ar gyfer pob cam o'r fframwaith arfaethedig isod. Nid yw'r ymchwil hon yn darparu disgrifiad manwl o'r gofynion methodolegol. Roedd hyn y tu hwnt i gwmpas y theori newid a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn. Fel offeryn cynllunio effaith, mae'r theori newid yn helpu i nodi beth i'w fesur i ddeall a yw'r newidiadau a ragwelir neu a ddymunir yn digwydd, sut, ac ar gyfer pwy. Fodd bynnag, dylid archwilio dichonoldeb gwerthuso a gofynion ymchwil yn llawn fel rhan o bennu a dyfarnu unrhyw ymchwil yn y dyfodol.
- 8.3 Gyda'r ystod o ofynion gwerthuso yn y dyfodol a awgrymwyd, y cyngor yw y dylid caffael yr ymchwil, gyda chontractwyr allanol yn cael eu penodi i ddarparu annibyniaeth oddi wrth y llywodraeth a'r gallu (e.e. adnoddau, arbenigedd) sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith o fewn cyfyngiadau amser a chost.
- 8.4 O ran amseru'r gwerthuso, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, "bydd Gweinidogion Cymru yn gosod gerbron y Senedd adroddiad ar effaith y Bil a'r ffordd mae wedi cael ei weithredu ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd" (LIC 2023a, t.126). Roedd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnig gwerthusiad canol tymor. Gyda'r Ddeddf ar waith ers diwedd mis Mai 2023, dylai'r gwerthusiad canol tymor gael ei gynnal yn

y ddwy i dair blynedd gyntaf y Ddeddf yn dod yn gyfraith, gyda'r adroddiad wedi'i nodi a'i gyflwyno i'r Senedd erbyn mis Mai 2028.

Cam Un: Asesiad Gwerthuso ac Astudiaeth Gwaelodlin

Asesiad Gwerthuso

- 8.5 Fel dull systematig cydnabyddedig a phroffedig o ddatblygu prosiectau gwerthuso,¹⁷ gellid cynnal asesiad gwerthuso fel cam cynnar wrth bennu cwmpas, cynllunio a chynnal yr adolygiad ôl-weithredu. Nod cyffredinol asesiad gwerthuso yw llywio penderfyniadau gwerthuso, gan ddarparu asesiad o'r graddau y gellir gwerthuso ymyrraeth (h.y., y Ddeddf) yn ddibynadwy ac yn gredadwy; nid yw wedi'i fwriadu i fesur neu bennu effeithiolrwydd yr ymyrraeth sy'n cael ei hystyried. Amcanion lefel uchel asesiadau gwerthuso yw nodi a ddylid cynnal gwerthusiad, ac os felly, pa gwestiynau ymchwil y gellir ac y dylid mynd i'r afael â nhw, a sut y dylid dylunio'r ymchwil.
- 8.6 Mae datblygu theori newid yn elfen allweddol o asesiad gwerthuso, felly yn hyn o beth, mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn (gan gynnwys yr adran hon) yn cynrychioli elfen allweddol o unrhyw asesiad gwerthuso yn y dyfodol. Nod y dull a amlinellir yma yw cydgrynhoi'r canfyddiad hyd yma o fewn dull methodolegol systematig i gefnogi penderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er bod darpariaeth gyfreithiol i ymgymryd â gweithgarwch ymchwil o dan yr adolygiad ôl-weithredu ac mae adnoddau wedi'u nodi i gefnogi gofynion gwerthuso, mae ansicrwydd yn parhau. Mae ansicrwydd yn cynnwys ymarferoldeb rhai elfennau gwerthuso, defnyddioldeb ac ansawdd ffynonellau data presennol a bylchau monitro a data, a pha dulliau fyddai'n gweithio orau i fynd i'r afael ag amcanion ymchwil yn y dyfodol.
- 8.7 Mae'r dulliau penodol a ddefnyddir mewn asesiadau gwerthuso yn amrywio, ond yn ogystal â datblygu theori newid, elfennau craidd asesiad gwerthuso yw:
- o'r cychwyn cyntaf, ymgysylltu systematig â rhanddeiliaid. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod canfyddiadau ynghylch ar ba ffurf y dylid cynnal gwerthusiadau yn y

¹⁷ Gweler, er enghraifft, [Astudiaeth gwmpasu Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwerthuso Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu Cymru](#) (LIC 2022); [Strategaeth Pwysau Iechyd Cymru: Asesiad Gwerthuso](#) (LIC 2022). [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].

dyfodol yn adlewyrchu blaenoriaethau, bod perchnogaeth ar y cyd arnynt, a'u bod yn ystyried y cyfyngiadau ymarferol a methodolegol ar ddyluniad yr ymchwil.

- Datblygu pellach, profi a mireinio theori newid y cytunwyd arno. Ar gyfer y Ddeddf, dylai hyn gynnwys mynd i'r afael â chyfyngiad allweddol ar yr ymchwil a'r profi hwn a mireinio'r model rhesymeg caffael cyhoeddus a gynhyrchir yn fewnol gyda rhanddeiliaid allanol. Ar gyfer y dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol a chaffael cyhoeddus, gwaith teg a'r CPG, mae'r ymchwil hon wedi cynhyrchu cyfres o ganlyniadau y cytunwyd arnynt, gan alluogi trafodaethau gyda rhanddeiliaid allanol ynghylch gwerthuso'r Ddeddf.
- Nodi ac adolygu ffynonellau llenyddiaeth a data sy'n bodoli eisoes, er mwyn sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr ynghylch y sail dystiolaeth a'r problemau posibl (e.e. mynediad at ddata). Un o brif amcanion yr adolygiad fyddai penderfynu sut y gallai ffynonellau, fel data gweinyddol a swyddogaethau adrodd blynyddol er enghraifft, gael eu defnyddio gan werthuswyr i fesur y Ddeddf. Fel ymyrraeth newydd iawn gydag ystod o ddarpariaethau ar draws amrywiol egwyddorion (partneriaethau cymdeithasol, gwaith teg, caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol; a rôl yr CPG), efallai mai mater allweddol wrth fesur llwyddiant y Ddeddf yw pa ddewisiadau monitro a gwerthuso amrywiol y dylid canolbwyntio arnynt wrth symud ymlaen.
- Fel allbwn terfynol, dylid llunio set glir o argymhellion, yn seiliedig ar ganlyniadau arfaethedig ac effeithiau tymor hwy y Ddeddf a nodwyd trwy'r elfen theori newid, ar gyfer neu yn erbyn dulliau monitro a gwerthuso penodol.

Astudiaeth Gwaelodlin

- 8.8 Dylai canfyddiadau sy'n deillio o asesiad gwerthuso fwydo i mewn i'r astudiaeth gwaelodlin, y dylid ei chynnal cyn gynted â phosibl yn dilyn yr asesiad, fel rhan o'r un gyfres o waith. Nod astudiaeth gwaelodlin fyddai mesur y sefyllfa ar ddechrau'r Ddeddf, er mwyn helpu i gadarnhau gofynion data ar gyfer y gwerthusiad a chymryd mesurau 'cyn' o fetrigau priodol y gellir mesur ac amcangyfrif tueddiadau o ran yr effaith yn ddiweddarach.

- 8.9 Dylid casglu data mor agos â phosibl at ddyddiad gweithredu'r Ddeddf er mwyn darparu pwynt cyfeirio hanesyddol dibynadwy a chyfnod amser digonol rhwng mesuriadau o gynnydd y Ddeddf.¹⁸
- 8.10 Bydd y data gwaelodlin yn fesur o'r amodau gwirioneddol ar ddechrau gweithredu'r Ddeddf; mae'r theori newid yn darparu'r meincnod. Gellir defnyddio gwybodaeth meincnod a gwaelodlin i helpu i bennu targed dangosydd penodol. Gellir defnyddio'r wybodaeth o'r gwaelodlin a'r meincnod hefyd i gymharu â pherfformiad dangosydd a'i asesu. Y meincnod fodd bynnag, fel y nodir yn y theori newid yn yr achos hwn, yw'r canlyniad a ddymunir.
- 8.11 Argymhellir cynnal astudiaeth gwaelodlin i sicrhau bod protocolau casglu data yn cael eu sefydlu a gellir mesur effaith yn fwy cywir dros flynyddoedd cychwynol y Ddeddf. Byddai amcanion yr astudiaeth yn gorgyffwrdd â'r asesiad gwerthuso gan y bydd y ddwy yn helpu i lywio penderfyniadau (er enghraifft, darparu pwynt cyfeirio i fesur cynnydd ac addasu gweithrediad darpariaethau'r Ddeddf os oes angen); asesu mesuradwyedd y dangosyddion a ddewiswyd; a llywio cam gwerthuso effaith diweddarach yr ymchwil, fel y pwynt i gymharu a mesur llwyddiant y Ddeddf ohono. Cynghorir cynnal y gweithgareddau canlynol, sydd naill ai'n ategu neu'n gallu cael eu cynnal fel rhan o asesiad gwerthuso:
- Nodi'r hyn sydd i'w fesur. Bydd hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau ar yr hyn sy'n angenrheidiol ac yn ddigonol i'w fesur, o fewn cyfyngiadau'r adolygiad ôl-weithredu ac adnoddau sydd ar gael. Bydd angen penderfyniadau ar y ffynonellau data a'r dulliau priodol ar gyfer y dangosyddion gwaelodlin. Mae'r prosesau asesiad gwerthuso ac astudiaeth gwaelodlin sefydledig yn fodd o nodi cymysgedd o ddangosyddion ansoddol a meintiol; data eilaidd a sylfaenol; triongli ffynonellau; archwilio barn amrywiaeth o randdeiliaid; a gofynion samplu (ar gyfer dadansoddi ansoddol a meintiol), osgoi baich ymchwil ar gyfer

¹⁸ Gall fod yn bosibl brasamcanu neu ail-greu amodau gwaelodlin ar ôl camau blaenorol neu gynnar unrhyw ymyrraeth gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Mae canllaw [Gwerthuso Gwell Baseline Basic](#) yn darparu rhagor o wybodaeth [cyrchwyd 14 Mehefin 2023].

cyfranogwyr a dyblygu ymdrechion (ee, gyda'r gofynion adrodd CPG); a dadgyfuno data yn ôl nodweddion priodol o ddiddordeb¹⁹.

- Rhestrir adolygiad a diweddariad o'r ffynonellau data a restrir yn Atodiad B (ac a drafodir yn ddiweddarach yn yr adran hon) i sefydlu eu haddasrwydd fel metrigau i ddangos effaith i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniadau a nodwyd yn y theori newid. Dylai'r adolygiad gynnwys rhybuddion priodol, o ran priodoliad, er enghraifft.²⁰
- Yn ogystal â chadarnhau pa fetrigau data fydd yn cael eu defnyddio i ddangos tystiolaeth o effaith, dylid sefydlu'r dull o gasglu a choladu data hefyd. Byddai hyn yn cynnwys cadarnhau amlder a dull adrodd. Dylai trefniadau gyd-fynd ag adroddiadau blynyddol gan yr CPG a Gweinidogion Cymru cyhyd ag y bo modd, er mwyn lleihau dyblygu.
- Gall yr asesiad gwerthuso nodi canlyniadau y gellid eu gwerthuso i ddangos effeithiolrwydd. Ar gyfer rhai o'r canlyniadau a nodwyd yn y theori newid, bydd mesurau ansoddol yn fwy priodol. Byddai asesiad o'r dulliau ansoddol a'r dulliau casglu data priodol yn cael ei archwilio fel rhan o asesiad gwerthuso, ond gallai opsiynau gynnwys cyfweiliadau manwl, astudiaethau achos a/neu ddulliau cydgyngorol. Gellid cynnal ymarfer ymchwil gyda'r sector preifat a'r trydydd sector, er enghraifft, i grynhoi'r ddealltwriaeth sylfaenol o egwyddorion y Ddeddf yn y sectorau hyn. Gallai hyn helpu i gasglu gwybodaeth am bartneriaethau cymdeithasol, er enghraifft, ar luniadau cysylltiedig megis meithrin perthynas a gweithredu newid diwylliant nad yw'n hawdd eu mesur.
- Dylid cadarnhau ymagwedd gyffredinol ac amseru'r broses a'r gofynion gwerthuso effaith.

¹⁹ Mae [A Guide to Inclusive Research Practices](#) (GSR 2023) yn cynnwys canllawiau ar ddeall a chynrychioli ystod amrywiol o brofiadau gan wahanol grwpiau [cyrchwyd 14 Mehefin 2023].

²⁰ Fel y disgrifir yng Nghynllawiau Sefydliad Tavistock [Guidance for Transport Impact Evaluations: Choosing an Evaluation Approach to Achieve Better Attribution](#): "Dylai dulliau o ddylunio gwerthusiadau gael eu penderfynu gan ddiben y gwerthusiad yn ogystal â natur yr ymyrraeth benodol a'r amgylchiadau perthnasol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan werthusiad effaith yn dangos, cyhyd ag y bo modd, fod y canfyddiadau a welwyd wedi'u hachosi gan yr ymyrraeth. Gelwir hyn yn briodoliad" (2010, t. 9).

8.12 Gallai allbynnau a gyhoeddwyd o Gam Un gynnwys adroddiad asesiad gwerthuso ac adroddiad astudiaeth gwaelodlin, wedi'u cyhoeddi gyda'i gilydd.

8.13 Dylid adolygu'r dull a awgrymir ar gyfer Camau Dau a Thri dros y paragraffau canlynol a'u diwygio yn seiliedig ar ganfyddiadau Cam Un.

Cam 2: Gwerthuso Prosesau

8.14 Ar gyfer y gwerthusiad canol tymor y cyfeirir ato yn y Memorandwm Esboniadol, cynigir gwerthusiad proses. Nod gwerthusiadau prosesau yw esbonio sut mae ymyriadau cymhleth yn gweithio (neu ddim yn gweithio). Byddai cynnal gwerthusiad proses yn galluogi dealltwriaeth fanwl o sut mae'r Ddeddf a'i chydannau rhyngweithiol lluosog yn gweithredu i gynhyrchu'r canlyniadau tymor byrrach a nodwyd yn y theori newid (Magenta Book 2020, t.15).²¹

8.15 Dylid gwerthuso'r broses yn ystod blwyddyn 2 neu 3 (2025/2026) ar ôl gweithredu'r Ddeddf.

8.16 Gallai amcanion allweddol ar gyfer gwerthuso proses gynnwys archwilio:

- Cyflawni a gweithredu'r Ddeddf. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth fesur canlyniadau sy'n ymwneud â newid ymddygiadol a diwylliannol o ran y DPG, er enghraifft, ac wrth asesu effeithiolrwydd yr CPG.
- Theori newid y Ddeddf, i adolygu, er enghraifft, a yw gweithgareddau wedi'u gweithredu yn ôl y disgwyl a'r mecanweithiau achosol a'r rhagdybiaethau ar sut y cynhyrchir newid. Mae'r ddamcaniaeth sylfaenol o sut y disgwylir i'r Ddeddf weithio a amlinellir yn yr adroddiad hwn a chanfyddiadau arfaethedig Cam Un yn darparu strwythur ar gyfer dylunio, casglu a dadansoddi data i werthuso'r broses.
- Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar y partïon, y sefydliadau a'r sectorau hynny sy'n dod o dan ei chylch gwaith, gan gynnwys eu hymateb i'r Ddeddf a'i darpariaethau a sut mae hyn yn dylanwadu ar wireddu canlyniadau.

²¹ Am ragor o wybodaeth, gweler er enghraifft canllawiau Llywodraeth y DU yn [Process evaluation: evaluation in health and wellbeing](#) a'r [Magenta Book](#) [cyrchwyd 14 Mehefin 2023].

- Effaith cyd-destun ar sut mae'r Ddeddf yn gweithio yn ôl bob un o'i hegwyddorion.
- Y berthynas rhwng gwahanol egwyddorion a darpariaethau'r Ddeddf.

8.17 Gall cynnal gwerthusiad proses ganol tymor ddatgelu sut mae newid yn cael ei weithredu, yr hyn sy'n gweithio'n effeithiol a lle y gallai fod angen addasiadau i'r theori newid sylfaenol neu i'r ymyrraeth ei hun.

8.18 Yn seiliedig ar yr ystod o ganlyniadau a restrir yn y theori newid, dylid gweithredu dull cymysg sy'n integreiddio gwahanol fathau o ddata, gyda dadansoddiadau meintiol ac ansoddol yn adeiladu ar ei gilydd. Er enghraifft, gellir defnyddio dulliau ansoddol i archwilio prosesau yn fanylach (e.e. canfyddiadau rhanddeiliaid; y rhyngweithio rhwng yr ymyrraeth a'r cyd-destun; llwybrau achosol annisgwyl neu gymhleth; i gynhyrchu theori newydd); gellir defnyddio dulliau meintiol i fesur newidynnau proses allweddol a darparu gwybodaeth feintiol ddisgrifiadol (ee, ar gyrhaeddiad y Ddeddf), integreiddio data proses meintiol i setiau data canlyniadau, neu brofi damcaniaethau a gynhyrchir gan ddata ansoddol.

8.19 Cam Tri: Gwerthusiad Effaith

8.20 Er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion adrodd cyffredinol a chyflwyno gwybodaeth am broses ac effaith y Ddeddf i'r Senedd erbyn mis Mai 2028, cynigir gwerthusiad effaith fel cam olaf y strategaeth werthuso. Mewn gwerthusiad effaith, archwilir y newidiadau a welwyd (h.y. yr effeithiau) i ddeall rôl ymyrraeth benodol (h.y. y Ddeddf) wrth gynhyrchu'r newidiadau hyn.²²

8.21 Gellir cynnal gwerthusiad effaith i helpu i ddangos hyd a lled effeithiolrwydd y Ddeddf a phenderfynu a yw ei darpariaethau amrywiol, wedi gweithio'n ymarferol i greu newid a pha mor dda y mae wedi gwneud hynny.

8.22 Byddai dull o werthuso effaith yn seiliedig ar theori, ar sail y theori newid sylfaenol, yn cael ei fabwysiadu. Yma, byddai'r dull o fesur priodoliad achosol yn dibynnu ar brofi dilysrwydd y rhagdybiaethau sy'n sail i lwybrau achosol y theori newid. Bydd y

²² Rhaid i werthusiad effaith ganfod achos y newidiadau a welwyd. Gelwir adnabod yr achos yn 'briodoliad achosol' neu 'gasgliad achosol'. Gweler Canllawiau [Impact Evaluation](#) am ragor o wybodaeth [cyrchwyd 12 Mehefin 2023].

theori newid yn galluogi gwerthuswyr yn y dyfodol i archwilio'r mecanweithiau a'r cyd-destunau sy'n cynhyrchu canlyniadau gwahanol.

- 8.23 Dylai'r gwerthusiad effaith fod yn werthusiad terfynol o effeithiolrwydd a diweddarau'r gwerthusiad proses canol tymor. Bydd yn gwneud casgliadau ynghylch effaith gyffredinol y Ddeddf, gan ystyried ffactorau allanol sy'n gweithredu ar y canlyniadau a graddau'r priodoliad sydd gan y Ddeddf mewn perthynas â gweithgarwch arall.
- 8.24 Dylid cynnal y gwerthusiad effaith yn ystod blwyddyn 4 ar ôl ei gweithredu (2027) i sicrhau bod y dadansoddiad yn cael ei gwblhau yn brydlon a bod adroddiad yn cael ei gwblhau erbyn blwyddyn 5.
- 8.25 Gallai amcanion allweddol ar gyfer gwerthuso effaith gynnwys archwilio:
- Diweddariad o'r gwerthusiad proses a gynhaliwyd ym mlynnyddoedd 2-3, gan werthuso a weithredwyd ar argymhellion yr adolygiad canol tymor, a beth fu effaith y newidiadau hynny.
 - Adolygiad o argaeledd data, gan gynnwys data gweinyddol, adroddiadau blynyddol gan yr CPG (gan gynnwys y Panel Caffael) ac o ffynonellau eraill i benderfynu ar y wybodaeth ddiweddaraf a all ddangos tystiolaeth o'r canlyniadau.
 - Defnyddio dulliau ymchwil sylfaenol, meintiol ac ansoddol, i gael gafael ar wybodaeth ychwanegol drwy gasglu data sylfaenol na all ffynonellau data eilaidd (ee, data gweinyddol, gwybodaeth rheoli prosiect) ei dystiolaethu.
 - Dylai'r gwerthusiad effaith hefyd gynnal ymchwil ansoddol sylfaenol i werthuso'r canlyniadau sy'n ymwneud â newid ymddygiad, yn enwedig o ran meithrin egwyddorion partneriaeth gymdeithasol mewn perthnasau dwyochrog a theirochrog.
 - Efallai y byddwch hefyd am gynnwys argymhellion i wella effeithiolrwydd yn y dyfodol, o gofio mai hwn fydd y gwerthusiad olaf o'r Ddeddf yn ôl pob tebyg.

Monitro Data

- 8.26 I gyd-fynd â'r modelau rhesymeg, cynhaliwyd ymarfer hefyd i gyfateb canlyniadau hirdymor pob elfen o'r Bil i ddangosyddion a ffynonellau data i ddangos y canlyniadau. Dylid archwilio'r rhain yn fanylach yn ystod yr asesiad gwerthuso, i

sefydlu eu haddasrwydd a'u potensial ar gyfer monitro a mesur newid o'r Astudiaeth Gwaelodlin ymlaen o fewn y strategaeth werthuso gyffredinol. Mae'r ffynonellau data a nodwyd wedi'u rhestru yn Atodiad B.

- 8.27 Mae'r mathau o ffynonellau data a gyflwynir yn Atodiad B yn cynnwys data agored trwy ffynonellau ystadegol y llywodraeth (e.e., [Arolwg o'r Llafurlu](#) a thablau data cysylltiedig), ffynonellau data gweinyddol, a gwybodaeth am dueddiadau (e.e., [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol y Ddeddf Llesiant](#)). Rheolir y ffynonellau hyn gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ac mae llawer ohonynt yn cael eu labelu fel ystadegau swyddogol, sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#). Ar gyfer llawer o'r ffynonellau data meintiol a nodwyd, cyhoeddir data, adroddiadau a/neu fwletinau ystadegol rheolaidd.
- 8.28 Bydd angen i waith gwerthuso'r dyfodol archwilio'r ffynonellau perthnasol presennol yn llawnach i archwilio i ba raddau y gallant fynd i'r afael â gofynion monitro a gwerthuso, gan gynnwys unrhyw gyfle i hybu a chysylltu data. Gall cysylltu data, er enghraifft, arwain at effeithlonrwydd, osgoi casglu data ailadroddus ar draws sawl astudiaeth, a gallai hefyd gynnig mewnwelediad ychwanegol i'r ffactorau sy'n ategu canlyniadau. Byddai'r asesiad gwerthuso yn archwilio dichonoldeb profi'r theori newid yn empirig gan ddefnyddio ffynonellau data eilaidd sy'n bodoli eisoes ac yn nodi pa ymchwil 'newydd' sydd angen ei gomisiynu. Byddai amcanion yr asesiad gwerthuso yn cynnwys ystyried sut y gellid defnyddio neu ddiwygio prosesau casglu ar gyfer ffynonellau presennol megis y rhai a restrir yn Atodiad B i gasglu data sy'n cyd-fynd â llwybrau theori newid.
- 8.29 Mae'r ffynonellau data a nodwyd yn Atodiad B yn ymwneud ag egwyddorion y Ddeddf a darpariaethau unigol. Mae angen rhagor o waith hefyd i nodi i ba raddau y gellir defnyddio ffynonellau presennol i archwilio'r cysylltiadau rhwng yr egwyddorion.
- 8.30 Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i ddefnyddio setiau data cysylltiedig; rhoi hwb i'r offer presennol; cynnal adolygiadau tystiolaeth o ymchwil gyhoeddedig ar yr egwyddorion a restrir yn y Ddeddf; a defnyddio'r arferion gwerthuso gorau sydd i'w gweld mewn

mannau eraill (e.e. gwledydd sydd eisoes â deddfwriaeth ar bartneriaeth gymdeithasol).

- 8.31 Pan gaiff ei sefydlu yn gynnar yn 2024, bydd yr CPG yn darparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion ar faterion a dyletswyddau yr ymdrinnir â hwy mewn rhannau eraill o'r Ddeddf, gan gynnwys y DPG, mynd ar drywydd nod llesiant "Cymru lewyrchus" gan gyrff cyhoeddus a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Rhaid i gyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf Llesiant lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut y maent wedi cydymffurfio â'r DPG, y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r CPG ar gyfer craffu. Bydd y DPG yn dechrau ar 1 Ebrill 2024, ac mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflwyno eu hadroddiad blynyddol cyntaf erbyn 31 Mawrth 2025.

9. Casgliadau ac Argymhellion

Casgliadau

- 9.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o gasgliadau allweddol y gweithdai a'r prif risgiau sy'n gyffredin i holl brif elfennau'r Ddeddf a nodwyd gan randdeiliaid. Yna mae'n gwneud cyfres o argymhellion polisi ynghylch monitro a gwerthuso'r Ddeddf.

Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

- 9.2 Roedd cyfranogwyr y gweithdy yn gyffredinol yn cytuno â'r canlyniadau a gyflwynwyd. Awgrymwyd y gellid ystyried canlyniadau lleihau anghydraddoldebau o fewn cymdeithasau a gweithleoedd yn fudd cyffredinol ychwanegol. Gellid egluro 'ymgysylltiad ystyrion a pharhaus' ymhellach ynghylch pwy y disgwylir i'r ymgysylltiad fod rhyngddynt a sut y byddent yn cymryd rhan. Dylid sicrhau ymgysylltiad ar y cyd gan yr holl randdeiliaid. Canlyniad ychwanegol a awgrymwyd oedd sicrhau integreiddio di-dor â'r Ddeddf Llesiant.
- 9.3 Er mwyn cyflawni'r canlyniadau a drafodwyd, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai fod angen mwy o gyfranogiad o'r gweithlu mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a mwy o ymgysylltiad gan gyflogwyr a'r llywodraeth. Gallai canllawiau statudol helpu i wneud yn eglur i sefydliadau pa newidiadau a ddisgwylir ganddynt, a gellid datblygu fframwaith lefel sylfaen ar gyfer adrodd yn y dyfodol. Gallai addysg a hyfforddiant helpu cyflogwyr a gweithwyr i ddysgu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a sut i weithio tuag ati.
- 9.4 Nododd rhanddeiliaid risgiau gan gynnwys diffyg dealltwriaeth ynghylch y Ddeddf Llesiant ymhlith cyflogwyr a gweithwyr, yr hinsawdd wleidyddol ehangach (e.e., chwyddiant, costau byw, a streiciau) rhwystrau rhag ymgysylltiad rhwng rhanddeiliaid, pwerau datganoledig sy'n cyfyngu ar ba mor llwyddiannus y gellid cyflawni'r Ddeddf, ymgysylltu tocenistaidd gan randdeiliaid, pwysau adnoddau ac amser, a'r potensial am ddylanwad anghyfartal rhwng partneriaid.

Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

- 9.5 Cafwyd cytundeb eang â'r canlyniadau a gyflwynwyd. Fodd bynnag, roedd pryder bod y canlyniadau'n rhy 'lefel uchel'. Awgrymodd rhanddeiliaid y dylai'r Ddeddf amlinellu'n gliriach y tasgau y mae gwahanol grwpiau yn gyfrifol amdanynt ar y

lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ledled Cymru. Roeddent hefyd o'r farn bod angen gwahaniaethu cliriach rhwng y CPG a'r DPG, wrth i'r canlyniadau orgyffwrdd. Gallai cynnwys canlyniadau 'lefel is' helpu i egluro nodau'r CPG, gan gynnwys gwerthoedd a disgwyliadau'r gwahanol randdeiliaid. Gellid ei gwneud yn fwy eglur hefyd o ran sut y disgwylir i'r CPG arwain at well dealltwriaeth rhwng rhanddeiliaid.

- 9.6 Roedd y gweithgareddau a'r allbynnau a awgrymwyd yn cynnwys ymrwymadau amser ac adnoddau i gefnogi'r strwythurau a'r rhyngweithio rhwng partneriaid cymdeithasol, addysg a hyfforddiant i'r holl bartneriaid ddysgu am y ddeddfwriaeth a rôl yr CPG, a chanllawiau i wneud gweithrediad a chanlyniadau'r CPG yn gyraeddadwy.
- 9.7 Roedd y drafodaeth ar risgiau wrth gyflawni'r canlyniadau datganedig yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd y cyngor gan yr CPG, colli manteision sgysiau croes, diffyg adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru, a diffyg dealltwriaeth bosibl o'r ddeddfwriaeth.

Gwaith Teg

- 9.8 Roedd rhanddeiliaid yn cytuno â'r canlyniadau a gyflwynwyd ar y cyfan, er yr awgrymwyd y gellid ymgorffori Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol yn y Ddeddf i wella atebolrwydd a gwella'r broses adrodd. Awgrymodd cyfranogwyr hefyd y gellid ystyried mwy o integreiddio â'r Ddeddf Llesiant fel canlyniad arall, a bod gan bobl mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt lais uniongyrchol ynghylch a ydynt o'r farn bod canlyniadau wedi'u cyflawni.
- 9.9 Roedd y gweithgareddau a'r allbynnau a awgrymwyd yn cynnwys rhannu arferion gorau rhwng gwahanol sectorau a sefydliadau, sefydliadau yn datblygu gwell dealltwriaeth o'u gweithluoedd eu hunain (y gellid eu hwyluso gan gefnogaeth ddadansoddol gan Lywodraeth Cymru), ac addysg ynghylch Gwaith Teg.
- 9.10 Roedd y risgiau a nodwyd yn cynnwys sut y gallai'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'deg' gael ei effeithio gan amodau economaidd ehangach, efallai y bydd busnesau'n ei chael hi'n anodd cydbwysu'r Ddeddf â'r ddeddfwriaeth bresennol (e.e. nodau cynaliadwyedd a Sero Net), ymgysylltu tocenistaidd gan randdeiliaid, a chostau

ychwanegol i fusnesau oherwydd mwy o lwyth gwaith ac ymrwymadau amser yn sgil y Ddeddf.

Argymhellion

- 9.11 Fel casgliad i'r ymchwil theori newid, argymhellir ystyried y canlynol ymhellach fel rhan o fframwaith datblygu a gwerthuso ar gyfer adolygiad ôl-weithredu pum mlynedd y Ddeddf:
1. Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru gytuno ar y dull gweithredu cyffredinol ar gyfer y gwerthusiad pan fo'n rhesymol bosibl ar ôl i'r Ddeddf gael ei gweithredu. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser ar gyfer caffael cam cyntaf y gwerthusiad. Dylid cadarnhau cyllid ar gyfer pob cam o'r gwerthusiad ac ym mha flwyddyn ariannol y bydd ei angen hefyd.
 2. Dylid penodi gwerthuswyr allanol, cyn gynted â phosibl nawr bod y Ddeddf mewn grym, i ymgymryd ag asesiad gwerthuso ac astudiaeth gwaelodlin. Dylai gwerthuswyr allanol fod â'r capasiti gofynnol a didueddrwydd digonol i werthuso'r Ddeddf. Byddai cwblhau'r asesiad gwerthuso ac astudiaeth gwaelodlin yn brydlon yn ategu gweithrediad proses fonitro a gwerthuso briodol, gan gynnwys casglu data gweithredu cynnar. Byddai hyn yn caniatáu i dystiolaeth o gynnydd gael ei mesur yn ystod y cyfnod adolygu ôl-weithredu pum mlynedd. Byddai ymgymryd ag asesiad gwerthuso ac astudiaeth gwaelodlin yn ategu'r gwaith o nodi, datblygu a defnyddio ffynonellau data y gellid eu defnyddio i ddangos effaith.
 3. Argymhellir y dull gwerthuso tri cham a amlinellir yn Adran 8. Bydd hyn yn caniatáu dull cadarn o werthuso, gan ystyried adolygiad ôl-weithredu ac asesiad o'r effaith ar ddiwedd y cyfnod gweithredu pum mlynedd. Bydd gwerthusiad o ganlyniadau meddalach y Ddeddf hefyd yn bosibl gan ddefnyddio dulliau ansoddol, megis cyfweiliadau neu astudiaethau achos, fel rhan o'r dull cyffredinol o asesu effaith.
 4. Dylid ailedrych ar y modelau rhesymeg a gynhyrchir fel rhan o'r theori newid yn rheolaidd wrth i'r Ddeddf ddatblygu. Fel lleiafswm, cynghorir adolygu a diwygio'r modelau rhesymeg yn y cyfnod gwerthuso canol tymor, i ddeall sut mae

cyflwyno polisi o dan y Ddeddf yn esblygu, ac i gefnogi defnyddioldeb y modelau rhesymeg wrth asesu proses ac effaith y Ddeddf.

5. Dylid ailedrych ar y model rhesymeg ar gyfer elfen caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol y theori newid fel rhan o'r asesiad gwerthuso ac astudiaeth gwaelodlin. Mae angen mynd i'r afael â'r ymgysylltu cyfyngedig gan bartneriaid allanol ar y ddarpariaeth hon o'r Ddeddf yn yr astudiaeth ymchwil hon yn gynnar yn yr adolygiad ôl-weithredu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod safbwyntiau perthnasol yn bwydo i elfen dyletswydd caffael cyhoeddus y theori newid pan gaiff ei ailystyried, yn yr un modd â sut yr ymgynghorwyd ynghylch y darpariaethau eraill yn ystod yr astudiaeth ymchwil hon.
6. Dylai'r adolygiad ôl-weithredu, lle bo'n bosibl, leihau'r baich ac osgoi dyblygu o ran casglu data. Dylid datblygu dull cydweithredol a systematig o gasglu data. Dylai'r adolygiad ôl-weithredu ddefnyddio cylchoedd adrodd sefydledig (ee, drwy'r CPG) gymaint ag sy'n bosibl. Dylai'r asesiad gwerthuso a'r astudiaeth gwaelodlin nodi'r prosesau adrodd hyn ochr yn ochr ag ystyriaethau ar sut y gellir rhannu'r data orau â gwerthuswyr.

Llyfryddiaeth

- Comisiwn Gwaith Teg (2019), Gwaith Teg Cymru: *Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg*. [Ar-lein] [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].
[Gwaith Teg Cymru - Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru/gwaith-teg-cymru-adroddiad-y-comisiwn-gwaith-teg)
- Trysorlys EM (2011), *The Magenta Book*. [Ar-lein] [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].
[The Magenta Book - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/the-magenta-book)
- Sefydliad Materion Cymreig (2023), *Beyond Social Partnership? Devolved Levers to Support Trade Unions in Wales*. Caerdydd. [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].
[IWA Beyond-Social-Partnership_v4.pdf](#)
- Llywodraeth Cymru (2021), *Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: Diweddariad*. [Ar-lein] [Cyrchwyd 19 Medi 2023].
[Rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)
- Llywodraeth Cymru (2022), *Canllaw i Waith Teg*. [Ar-lein] [Cyrchwyd 19 Medi 2023].
[Canllaw i waith teg | LLYW. CYMRU](#)
- *Memorandwm Esboniadol Bil Llywodraeth Cymru (2023a), Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)*. [Ar-lein] [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].
[Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus: memorandwm esboniadol | LLYW. CYMRU](#)
- Llywodraeth Cymru (2023b), *Cydweithio er Budd Manwerthu: Cynllun Gweithredu Manwerthu Cymru*. [Ar-lein] [Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2023].
[Cydweithio er budd Manwerthu: cynllun gweithredu Fforwm Manwerthu Cymru \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

Atodiad A: Canllaw Pwnc ar gyfer y Gweithdy i Randdeiliaid

Adran	Cwestiynau / Materion i'w trafod
<p>1. Cyflwyniad (5-10 munud)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Croeso • Cyflwyniadau • Rydym yn ymchwilwyr cymdeithasol mewnol sy'n gweithio'n annibynnol gyda pholisi yn y llywodraeth • Rydym wedi bod yn gweithio i ddarparu cefnogaeth i'r gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg i ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer gweithredu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). • Felly, rydym yn helpu Tîm y Bil i lunio theori newid ar gyfer y Bil. • Beth yw theori newid? - dull a ddefnyddir gan ymchwilwyr i (i) deall yr ymyrraeth yn llawn h.y., y Bil; (ii) canlyniadau'r Bil, a (iii) llunio fframwaith gwerthuso y gellir mesur effeithiolrwydd y Bil drwyddo. • Pwrpas y sesiwn: rhoi barn ar ganlyniadau'r Bil fel y darperir yn y sleidiau a ddosbarthwyd cyn y sesiwn, a sut y gallem gyflawni'r canlyniadau hynny. • Pan gyfeiriwn at ganlyniad, rydym yn golygu unrhyw ganlyniad buddiol i ymyrraeth yn seiliedig ar yr adnoddau a'r gweithgareddau a ddefnyddir. Gellir mesur y rhain fel rhai tymor byr, canolig neu hirdymor. • Byddwn hefyd yn treulio amser yn trafod y risgiau i gyflawni'r canlyniadau hyn, a'r data sydd eu hangen i ddangos tystiolaeth o gyflawni'r canlyniadau. • Rheolau ar gyfer Teams – <ul style="list-style-type: none"> ○ diffodd eich meic os nad ydych chi'n siarad, ○ defnyddio llaw i fyny i wneud sylwadau, ○ hapus i drafod sylwadau ychwanegol yn dilyn y sesiwn, felly a allwn ni gadw sylwadau sgwrsio i'r isafswm yn y bar sgwrsio. • Bydd y sesiwn yn cael ei recordio ar Teams at ddibenion dadansoddol • RECORDIO

	<ul style="list-style-type: none"> • Amlinelliad o rannau allweddol y sesiwn- <ul style="list-style-type: none"> ○ 45 munud – CANLYNIADAU ○ 15 munud – RISGIAU ○ 20 munud - DATA • Rydym yn deall bod yr amseroedd ar gyfer pob elfen yn dynn. Bydd yn rhaid i ni fod yn llym gydag amser i sicrhau ein bod yn cwmpasu'r holl ddeunydd. Rydym yn croesawu sylwadau ac adborth ychwanegol yn dilyn y sesiwn drwy e-bost. • Cyflwyniadau – hwyluswyr a chyfranogwyr
<p>2. Canlyniadau (45 munud)</p>	<p>RHANNU SLEIDIAU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amlinelliad o agweddau allweddol ar Waith Teg / Partneriaeth Gymdeithasol / Caffael Cymdeithasol Gyfrifol o'r pecyn sleidiau • Rydym hefyd wedi cynnwys rhai canlyniadau sy'n gysylltiedig â phob agwedd ar yr uchod fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth. <p>RHANNU BWRDD GWYN</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ydych chi o'r farn mai'r canlyniadau hirdymor hyn yw'r rhai cywir ar gyfer gwaith teg / partneriaeth gymdeithasol / caffael cymdeithasol gyfrifol? ○ Ydych chi'n credu bod y canlyniadau'n rhy uchelgeisiol / ddim yn ddigon uchelgeisiol? ○ Beth ydych chi'n ei feddwl am [bob canlyniad]? ○ Ai dyma'r termau cywir i'w defnyddio? ○ Pa ddiffiniadau / cysyniadau eraill fyddech chi'n eu defnyddio? ○ Oes unrhyw ganlyniadau ar goll? Beth ydyn nhw? ○ O'r canlyniadau hynny a drafodwyd, beth sydd angen digwydd ar hyd y ffordd i'n galluogi i'w cyflawni? <ul style="list-style-type: none"> - Pa adnoddau sydd eu hangen arnom? - Beth yw'r camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd i gyrraedd y canlyniadau gorau hyn?
<p>3. Risgiau a chanlyniadau annisgwyl (15 munud)</p>	<p>Gan feddwl am y canlyniadau rydym wedi'u trafod hyd yn hyn, hoffem nawr symud ymlaen i siarad am ba mor gyraeddadwy yw'r canlyniadau, ac a oes unrhyw risgiau neu ganlyniadau anfwriadol yn gysylltiedig â'r canlyniadau hyn.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Beth yw'r materion mwyaf hanfodol o ran adnoddau ar gyfer cyflawni'r canlyniadau hyn yn eich barn chi? ○ Pa heriau a risgiau eraill y gallwch eu gweld wrth gyflawni'r canlyniadau hyn? ○ Beth fyddai angen ei newid i leihau neu ddileu'r risgiau hyn a chan bwy? ○ A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r polisi ar ganlyniadau? ○ Beth yn eich barn chi yw'r canlyniadau hyn? A ydynt yn gadarnhaol neu'n negyddol a sut y byddant yn effeithio ar gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd?
<p>4. Canlyniadau a monitro data (20 munud)</p>	<p>Bydd yr adran hon yn trafod sut y gellir defnyddio data i ddangos tystiolaeth o allbynnau a chanlyniadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Pa ddangosyddion monitro data y gellid eu defnyddio i fesur yr allbynnau yn y model rhesymeg? ○ Ble allwn ni ddod o hyd i'r data? A fydd unrhyw anawsterau wrth ddefnyddio'r data hyn? ○ Beth yw'r ffordd orau o adrodd ar y data a chasglu'r data? ○ A oes unrhyw ddata na fyddai ar gael ar hyn o bryd? ○ Er mwyn cefnogi argaeledd y data hyn, beth fyddai angen i ni ei ystyried?
<p>5. Crynhoi (5-10 munud)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diolch i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau. • Bydd cynnwys y drafodaeth yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu theori newid newydd ar gyfer partneriaeth gymdeithasol. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad llawn, ynghyd ag awgrymiadau ynghylch monitro data ac opsiynau ar gyfer gwerthusiad llawn o'r Bil yn ystod ac ar ôl ei weithredu. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. • Cwestiynau?

Atodiad B

Tabl B.1: Monitro Data Gwaith Teg

Canlyniad	Dangosydd	Ffynhonnell Data
Tueddiadau cadarnhaol yn erbyn mesurau canlyniadau Gwaith Teg	-	Cyflawnir hyn drwy waith monitro parhaus o ddata gweinyddol, adroddiadau blynyddol a dulliau gwerthuso pwrpasol.
Gweithlu gwybodus ac ymgysylltiedig	Aelodaeth undebau llafur: Cyfanswm a % o'r gweithlu	Arolwg o'r Llafurlu / Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ²³
	Pa mor dda / gwael yw rheolwyr wrth gynnwys gweithwyr a chynrychiolwyr wrth wneud penderfyniadau	Arolwg o'r Llafurlu / Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Gellir archwilio hyn hefyd gan ddefnyddio dull astudiaeth achos yn y gwerthusiad i archwilio gweithrediad trefniadau partneriaeth gymdeithasol i gyflawni nodau a rennir.
	Ymwybyddiaeth gweithwyr o hawliau	Arolwg Hawliau a Phrofiadau Gweithwyr ²⁴ Gwerthusiad o'r Ymgyrch Gwybod Eich Hawliau yng Nghymru fel rhan o'r gwerthusiad cyffredinol.

²³ Mae'r Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cael eu trosglwyddo i'r TLFS ar hyn o bryd, disgwylir i'r rhain gael eu cyhoeddi o wanwyn 2024. Nid yw maint llawn y newidiadau yn hysbys eto; fodd bynnag, disgwylir y gellid dileu ac ychwanegu sawl cwestiwn, a allai effeithio ar y gallu i fesur rhai o'r dangosyddion.

²⁴ Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid yw'n glir a yw'r data o'r Arolwg Hawliau a Phrofiadau Gweithwyr yn cael eu cyhoeddi ar-lein, ac mae gwybodaeth gyfyngedig ar-lein ynghylch yr arolwg ei hun. Fodd bynnag, mae'r arolwg wedi'i gynnwys yma fel ffynhonnell i'w harchwilio ymhellach yn ystod y cyfnod adolygu ôl-weithredu.

	% o weithwyr â chyflog wedi'i osod gan gyd-fargeinio	ABOE
Mwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn trefniadau gweithio; Stigma a gwahaniaethu yn cael eu dileu o'r gweithle	Bylchau cyflog cydraddoldeb – rhyw, ethnigrwydd, anabled	ABOE, Arolwg o'r Llafurlu / Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
	Cyfraddau cyflogaeth cydraddoldeb (rhyw, ethnigrwydd, anabled)	Arolwg o'r Llafurlu / Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
	% cyflogwyr â pholisi cyfle cyfartal	Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
Gwella iechyd meddwl a lleihau lefelau salwch; stigma a gwahaniaethu yn cael eu dileu o'r gweithle	Cyfradd / nifer yr anafiadau sy'n gysylltiedig â'r gweithle	RIDDOR / Arolwg o'r Llafurlu
	Iechyd meddwl / lles gweithwyr	Wedi'i dynnu o arolygon gweithlu sectorol, er y bydd priodoli newid dros amser i weithredu'r Bil yn heriol. Bydd methodolegau arolygon hefyd yn amrywio. Gallai hyn gael ei fesur ar lefel y sefydliad gan werthuswyr gan ddefnyddio dulliau pwrpasol, gan gynnwys arolygon.
Mwy o swyddi o ansawdd uchel	% o gyflogaeth sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol	Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ABOE)/APSI ²⁵

²⁵ Mae Arolwg Blynyddol y Boblogaeth wedi'i ychwanegu yma. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar ganran y bobl sy'n ennill dros y cyflog byw gwirioneddol sydd ar gontractau parhaol ac nad ydynt yn chwilio am gyflogaeth barhaol ([Canran y bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau](#))

	'Mae fy swydd yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer dilyniant gyrfa' datganiad hunan-adroddiad	Arolwg o'r Llafurlu / Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Gellir defnyddio dulliau ansoddol hefyd i archwilio'r mater hwn a materion ehangach datblygiad a chyfleoedd yn y gweithle, yn fanylach yn y gwerthusiad.
	% y gweithlu wedi'i hyfforddi	Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
	Diwrnodau hyfforddi fesul person	Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
	% cyflogwyr sy'n cynnig gweithio hyblyg (bob dwy flynedd)	Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
	% o ddiffyg cyflogaeth (mae gweithwyr eisiau mwy o oriau)	Arolwg o'r Llafurlu / Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
	% o weithwyr y mae eu cyflogwyr yn cefnogi'r Gymraeg	Arolwg Cenedlaethol / Arolwg Defnydd Iaith

[parhaol \(neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol\) ac sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol \(llyw.cymru\)](#)). Nid yw'r dadansoddiad hwn ar gael trwy ABOE.

Budd-daliadau i'r hunangyflogedig: gallu talu cyflog teg i'w hunain, mae asedau personol sy'n cael eu trosoli yn erbyn y busnes yn cael eu diogelu'n well	Enillion wythnosol canolrifol (yn ôl rhanbarth: Cymru)	Arolwg Adnoddau Teuluol/ABOE ²⁶
Mae amcanion Gwaith Teg yn cael eu diffinio'n glir, eu blaenoriaethu gan gyrff cyhoeddus ac yn ehangach yng Nghymru. Mae llawer o bobl yn cefnogi cyflawni amcanion Gwaith Teg o ganlyniad i'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru	Mae gan Gyrff Cyhoeddus bolisi ar sut y byddant yn cyflawni Gwaith Teg / diffinio eu hamcanion Gwaith Teg.	Cyrff cyhoeddus yn hunan-adrodd – drwy arolwg neu ddata ansoddol fel rhan o werthusiad.
	Ymgysylltiad Cyrff Cyhoeddus â'r CPG; cydweithredu yn y broses adrodd a'r camau a gymerwyd yn seiliedig ar gyngor CPG	Cyrff cyhoeddus yn hunan-adrodd – drwy arolwg neu ddata ansoddol fel rhan o werthusiad.
Gwelliannau mewn mesurau canlyniadau partneriaethau cymdeithasol	-	Bydd yn defnyddio mesurau a nodir yn y tabl partneriaeth gymdeithasol (gweler uchod)
Mae gan yr CPG ddylanwad hirdymor a sefydledig ar flaenoriaethau'r llywodraeth o ran Gwaith Teg a Phartneriaeth Gymdeithasol	Ymgysylltiad Cyrff Cyhoeddus â'r CPG; cydweithredu yn y broses adrodd a'r camau a gymerwyd yn seiliedig ar gyngor CPG.	Cyrff cyhoeddus yn hunan-adrodd – drwy arolwg neu ddata ansoddol fel rhan o werthusiad. Adroddiad blynyddol gorfodol gan gyrff cyhoeddus.

²⁶ Mae ABOE ar gyfer gweithwyr, nid yr hunangyflogedig.

Llywodraethu hirdymor: deialog barhaus a gweithredu ar gynnydd tuag at ddeilliannau Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg	Natur ac ansawdd yr ymgysylltiad rhwng yr CPG, Gweinidogion Cymru, Cyrff Cyhoeddus, contractwyr ac unrhyw bartion eraill wrth wella trefniadau partneriaeth gymdeithasol ac wrth gyflawni amcanion Gwaith Teg.	Defnyddio data adrodd blynyddol a dulliau ansoddol fel rhan o werthusiad, gan gynnwys cyfweiliadau ansoddol ac astudiaethau achos.
Manteision i gyflogwyr; gwelliannau yn y data lechyd a Diogelwch, llai o ddyddiau yn cael eu colli i salwch; colli llai o ddyddiau i straen; cynyddu cynhyrchiant; cynyddu elw, costau is sy'n gysylltiedig â throsiant staff	Cyfradd / nifer yr anafiadau sy'n gysylltiedig â'r gweithle	RIDDOR / Arolwg o'r Llafurlu
	Diwrnodau wedi'u colli oherwydd salwch corfforol	Arolwg o'r Llafurlu Arolwg UK Working Lives
	Diwrnodau wedi'u colli oherwydd salwch meddwl	Arolwg UK Working Lives /Arolwg o'r Llafurlu ²⁷
	Mesurau Cynhyrchiant mewn Busnesau (GVA)	ONS (dadansoddiadau rhanbarthol ac isranbarthol)
	Trosiant staff (%) a chostau trosiant staff (£)	Cynhyrchir data sector-benodol gan gyrrff cynrychioliadol priodol, dulliau casglu data a gall ansawdd amrywio.
Mae gweithwyr sy'n gwneud yr un swydd yn cael eu talu'r un fath / yn yr un modd ni waeth ym mha sector y maent yn gweithio ynddo	Mesurau cydraddoli cyflog	

²⁷ Mae allbwn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar [absenoldeb salwch ym marchnad lafur y DU](#) hefyd yn cynnwys rhai dadansoddiadau ar gyfer iechyd meddwl, gyda'r data gan LFS.

Mae pob gweithiwr ym mhob sector ledled Cymru yn derbyn cyflog teg a/neu wobwr gan eu cyflogwr	Diffyg cydymffurfio â'r isafswm cyflog	Cyflog isel (gan ddefnyddio ABOE / Arolwg o'r Llafurlu)
	% o weithwyr sy'n ennill o leiaf y cyflog byw gwirioneddol	ABOE / ABB ²⁸
	Bylchau cyflog cydraddoldeb – rhyw, ethnigrwydd, anabled	ABOE, Arolwg o'r Llafurlu / Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth
	Pensiynau gweithle <ul style="list-style-type: none"> ○ % swyddi gyda chyfraniadau cyflogwyr o leiaf yn gyfartal â chyfraniadau gweithwyr 	ABOE
Cyfraddau diffyg cydymffurfio yn lleihau	Gellid monitro diffyg cydymffurfio â'r metrigau canlynol: ²⁹ <ul style="list-style-type: none"> ○ Bylchau cyflog cydraddoldebau ○ Cyfraddau cyflogaeth cydraddoldebau ○ % o gontractau sero oriau priodol 	ABOE Arolwg o'r Llafurlu ABB

²⁸ Fel uchod, gallai gynnwys ABB yn ogystal yn dibynnu a yw'r set ddata StatsCymru a gyhoeddwyd yn ddefnyddiol.

[Canran y bobl mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol \(neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio cyflogaeth barhaol\) ac sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol \(llyw.cymru\)](#)

²⁹ Mae materion i'w hystyried yn ystod y cyfnod adolygu ôl-weithredu yn cynnwys ystyried yr hyn y bydd cyfraddau diffyg cydymffurfio yn seiliedig arno (e.e. poblogaeth, busnesau ac ati). Mae'r ffynonellau data a restrir yn briodol i'w defnyddio os yw'r diffyg cydymffurfio yn seiliedig ar boblogaeth, ond ni fyddant yn ddefnyddiol o safbwynt busnes, gyda'r angen am ystyriaeth bellach ynghylch a ellir mesur hyn a sut o ran busnes.

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol 	
Mwy o chwarae teg o ran: perthynas â chyflogwyr	<p>Gwell perthynas rhwng cyflogwyr a gweithwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cysondeb yn unol ag egwyddorion gwaith teg 	<p>Gwaith ansoddol, gan gynnwys astudiaethau achos, i ddeall a yw cydymffurfiaeth uwch a threfniadau partneriaeth gymdeithasol yn arwain at well perthynas a datrys anghydfodau a sut hynny.</p>

Tabl B.2: Monitro Data Partneriaeth Gymdeithasol

Canlyniad	Dangosydd	Ffynhonnell Data
Gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Dangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol / Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol ³⁰
Cynnydd tuag at gyflawni safonau Gwaith Teg, cyflogaeth o ansawdd da, darparu polisi effeithiol, cynhyrchiant i'r sector preifat	Dangosyddion Gwaith Teg y cytunwyd arnynt fel y nodir yn nhabl 2.	Data gweinyddol fel yr amlinellir yn y tabl gwaith teg, adroddiadau blynyddol a dulliau gwerthuso pwrpasol.
Strwythur teirochrog sy'n rhoi llais cyfartal i weithwyr, cyflogwyr a'r llywodraeth, gan sicrhau bod barn partneriaid cymdeithasol wedi'u hadlewyrchu	Archwilio i ba raddau y mae gwerthoedd partneriaeth gymdeithasol wedi dod yn rhan annatod o strwythurau teirochrog.	Nid yw mesurau meintiol yn briodol ar gyfer mesur y canlyniadau hyn oherwydd eu natur oddrychol. Gellir archwilio hyn yn fwyaf effeithiol trwy ymchwil ansoddol, gan gynnwys astudiaethau achos, fel rhan o werthusiad.
Newid diwylliant sy'n cael ei ysgogi gan ffocws ar y cyd (agweddau ac ymddygiadau) a chyfranogiad gyda phartneriaid	Diffinio ac archwilio newid diwylliant o fewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol ac i ba raddau y mae'r Bil wedi hwyluso hyn.	
Mae model Partneriaeth Gymdeithasol yn gweithredu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ledled Cymru	Archwilio integreiddio egwyddorion partneriaeth gymdeithasol mewn cysylltiadau dwyochrog a theirochrog ar lefelau	

³⁰ Gallai'r dangosfwrdd dangosyddion cenedlaethol [Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol | LLYW.CYMRU](#) [Cyrchwyd 2 Hydref 2023], fod yn ddefnyddiol yma.

	cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.	
System o bartneriaeth gymdeithasol sy'n hwyluso ymgysylltu â chynrychiolaeth gweithwyr ar y cyd er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus ac i gefnogi nodau strategol i wella llesiant economaidd a chymdeithasol pobl yng Nghymru.	Graddfa a natur cynrychiolaeth gweithwyr Gwella gwasanaethau cyhoeddus Mesurau llesiant economaidd a chymdeithasol	Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ³¹ Canlyniadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

³¹ Mae materion sy'n ymwneud â phriodoliad yn debygol o fod yn anodd mynd i'r afael â nhw.

Tabl B.3: Monitro Data Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol

Canlyniad	Dangosydd	Ffynhonnell y Data
Gwell amodau i'r gweithlu sy'n cyd-fynd â nodau Gwaith Teg e.e., cyflog teg gan isgcontractwyr, gwella sgiliau yn y gweithlu.	Nifer y busnesau sydd wedi ymgorffori'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn proses diwydrwydd dyladwy	Data monitro cyrff cyhoeddus – adroddiadau blynyddol
	Lleihau cyfradd y defnydd o gontractau oriau sero amhriodol	Data monitro cyrff cyhoeddus – adroddiadau blynyddol
	% o'r gweithwyr sy'n cael y cyflog byw gwirioneddol	
	Cyflog teg gan isgcontractwyr	
	% cynnydd yn y nifer sy'n mabwysiadu'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol ar draws cyrff cyhoeddus	
Cefnogi twf economaidd yng Nghymru a sicrhau bod buddion economaidd yn cael eu cadw yng Nghymru	Gwell prosesau contractio – cyflawni effeithlon e.e., yn ôl amser a chyllideb, gyda diwydrwydd dyladwy	Data Llwyfan Caffael Cyrff Cyhoeddus e.e., GwerthwchiGymru
	% o'r contractau a ddyfarnwyd yn lleol	Data Llwyfan Caffael Cyrff Cyhoeddus e.e., GwerthwchiGymru Canlyniad Data TOMS (lle bo ar gael): Mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol a BBaCh
	% o swyddi lleol	Canlyniad Data TOMS ar ymarferion caffael (lle bo ar gael): Mwy o bobl mewn cyflogaeth
	Nifer cynlluniau hyfforddi swyddi	Canlyniad Data TOMS: Gwell sgiliau i bobl; Gwell sgiliau ar gyfer pontio carbon isel

	% o'r contractau a ddyfarnwyd i gwmnïau o Gymru sy'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol	Data Llwyfan Caffael Cyrff Cyhoeddus e.e., GwerthwchiGymru
Gwella gwasanaethau cyhoeddus i wasanaethu defnyddwyr terfynol tra'n sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.	Cofnod Cyrff Cyhoeddus o gydymffurfio â chyngor CPG	Adroddiad blynyddol gan CPG
	Nifer yr adroddiadau esemptiad a dderbyniwyd Camau a gymerwyd o ganlyniad i benderfyniadau ar adroddiadau esemptiad Trafod gyda Sue sut rydym yn mesur 'cynaliadwyedd hirdymor'	
	Data ar gyngor ar adroddiad esemptiad a gwneud penderfyniadau	Monitro CPG
Gwell lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn yr ardal a mwy o ffocws ar gadwyni cyflenwi moesegol mewn mannau eraill	<u>Amgylcheddol</u> Mae caffael moesegol yn cael ei hyrwyddo'n fyd-eang Arloesi i gefnogi Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang Hyrwyddir caffael cynaliadwy <u>Economaidd</u> ³² Mwy o bobl mewn gwaith Gwaith Teg Gwell sgiliau i bobl Gwell sgiliau ar gyfer pontio carbon isel	TOMS

³² Gall fod yn ffynonellau defnyddiol: [Lefelau y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oedran gweithio: 2022 | LLYW. CYMRU](#) [Cyrchwyd 2 Hydref 2023] a diweddariad "[Green jobs](#)" [update, current and upcoming work - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#) [Cyrchwyd 2 Hydref 2023]

	<p>Mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol a BBaCh</p> <p>Hyrwyddir caffael moesegol yng Nghymru</p> <p><u>Cymdeithasol</u></p> <p>Gwerth cymdeithasol wedi'i wreiddio yn y gadwyn gyflenwi</p> <p>Gwella lles staff</p>	
<p>Integreiddio arferion Gwaith Teg yn ehangach ar draws sefydliadau, busnesau a sefydliadau Cymru (Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol)</p>	<p>Dangosyddion a amlinellir yn nhabl 2 (Gwaith Teg)</p>	
	<p>Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol</p>	<p>Adroddiadau blynyddol</p>